# Rhybudd o Gyfarfod / Notice of Meeting

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Emyr Williams*
*Prif Weithredwr*
*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
*Penrhyndeudraeth*
*Gwynedd LL48 6LF*
*Ffôn/Phone (01766) 770274*
*E.bost/E.mail : parc@eryri.llyw.cymru*

*Snowdonia National Park Authority*

*Emyr Williams*
*Chief Executive*
*Snowdonia National Park Authority*
*Penrhyndeudraeth*
*Gwynedd LL48 6LF*
*Ffacs/Fax (01766)771211*
*Gwefan/Website: : www.eryri.llyw.cymru*

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri* |
| **Dyddiad:** | *Dydd Mercher 8 Rhagfyr 2021* |
| ***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig*** | |
| **Amser:** | ***10.00 y.b.*** |
| ***Anfonir cyfarwyddiadau ymuno at yr Aelodau ar wahân*** | |

| | |
|---|---|
| **Meeting:** | *Snowdonia National Park Authority* |
| **Date:** | *Wednesday 8 December 2021* |
| ***Members are asked to join the meeting 15 minutes before the designated start time*** | |
| **Time:** | ***10.00 a.m.*** |
| ***Joining instructions will be sent to Members separately*** | |

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
***Members appointed by Gwynedd Council***
*Y Cynghorydd / Councillor :*
*Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes,*
*Judith Mary Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,*
*John Pughe Roberts, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
***Members appointed by Conwy County Borough Council***
*Y Cynghorydd / Councillor :*
*Philip Capper, Wyn Ellis-Jones, Ifor Glyn Lloyd;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
***Members appointed by The Welsh Government***
*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle,*
*Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn.*

# R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** **Rhifau Tudalennau**
   Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.

2. **Diweddariad Corfforaethol**
   Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
   Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

   Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.

4. **Datgan Diddordeb**
   Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

5. **Cofnodion** **4 - 11**
   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 13eg Hydref 2021 fel rhai cywir. (Copi yma)

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

7. **Taflen Gweithredu** **12 - 16**
   Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)

8. **Archwiliad o Asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o Berfformiad 2020-21** **17 - 18**
   Derbyn adroddiad gan Archwilio Cymru. (Copi yma)

9. **Rheoli'r Trysorlys - Adroddiad Interim 2021/22**
   Cyflwyno adroddiad llafar gan y Prif Swyddog Cyllid.

10. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2022/23**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi i ddilyn)

11. **Diweddariad o'r Gyllideb 2021/22**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) **19 - 27**

12. **Gwytnwch yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff** **28 - 30**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

13. **Cydbwyllgorau Corrfforaethol (CJCs)** **31 - 33**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

14. **Partneriaeth y Parc Cenedlaethol** **34 - 53**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

15. **Proffil Risg yr Awdurdod** **54 - 63**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.
(Copi yma)

16. **Adroddiadau Gweithgor yr Aelodau** **64 - 70**
Cyflwyno adroddiadau y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 8 Medi a
20 Hydref 2021. (Copiiau yma)

17. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill
y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

18. **Cyflwyno'r cofnodion a ganlyn er gwybodaeth** **71 - 80**
Cofnodion Cyfarfod Gweithrediaeth Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd
Ar 19 Mawrth 2021. (Copi yma)

19. **Ymestyn Cytundeb Yswiriant**
**Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau** **81**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

**RHAN II**

20. **Ymestyn Cytundeb Yswiriant** **82 - 83**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 13EG HYDREF 2021**

Y Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Conwy) (Cadeirydd)

***YN BRESENNOL*** :

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens;

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Ms Tracey Evans, Mr Tim Jones, Mr Owain Wyn;

**Swyddogion**
E. Williams, Mr G.I. Jones, Mr J. Cawley, Mr D. Edwards, Mr E. Roberts,
Elen Hughes, Mrs. A. Gaffey.

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams; Sarah Hattle.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn destun Rheoliadau Covid-19 o ran sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, ac:
- Roedd Rhybudd o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion a byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau Cadeirydd**

(1) croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Mike Stevens i'w gyfarfod Awdurdod cyntaf.

(2) adroddodd y Cadeirydd ar lansiad y Prosiect Celf Dathlu’r 70 yn Pontio, Bangor ar y 1af o Hydref. Comisiynwyd Bardd Cenedlaethol Cymru, Ifor Ap Glyn, i ysgrifennu cerdd yn arbennig ar gyfer y dathliad hwn ac mae artistiaid amrywiol wedi ymateb i'r gerdd a rhinweddau arbennig Parciau Cenedlaethol Eryri. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid rhoi cyfle i bob Aelod wrando ar y gerdd, o bosibl mewn cyfarfod o Weithgor yr Aelodau yn y dyfodol.

(3) rhoddodd y Cadeirydd amlinelliad o'r digwyddiadau yn arwain at y dathliad pen-blwydd a chynghorodd fod taith arbennig yn cael ei threfnu o ogledd y Parc i'r de, gyda staff, gwirfoddolwyr, Aelodau a phartneriaid i gyd yn cymryd rhan. Bydd y daith yn gorffen yn Aberdyfi, lle bydd cynulliad bach i nodi'r pen-blwydd.

(4) atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod cyfres deledu fer 'Pobl y Parc', yn dilyn hanesion trigolion a staff y Parc Cenedlaethol, yn cael ei ddarlledu ar S4C yn dechrau ar y 19eg Hydref 2021.

(5) cynghorodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am asesiadau Aelod blynyddol yn y dyfodol, yn hytrach na'r ddwy flynedd arferol. Mae'r broses bellach wedi dechrau ar gyfer Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ymestyn hyn i Aelodau Awdurdod Lleol. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach gan

y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu sy'n cael ei gynnull ganol mis Tachwedd 2021.

(6) cadarnhaodd y Cadeirydd fod bidiau Dinas Diwylliant (Dinas Bangor a Sir Conwy) wedi bod yn aflwyddiannus a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am eu cefnogaeth.

(7) adroddodd y Cadeirydd am y cydweithio rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd ar heriau twristiaeth gynaliadwy. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn fuddiol iawn a gobeithio y byddant yn sicrhau canlyniad da ar gyfer y dyfodol.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol: -

(1) adroddiad diweddaru ar y Strategaeth Drafnidiaeth a Pharcio a oedd yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau ar yr 20fed o Hydref 2021.

(2) Croesawodd y Prif Weithredwr y Cynghorydd Mike Stevens i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn hysbysebu ar hyn o bryd ar gyfer dau Aelod newydd ar gyfer yr Awdurdod - y dyddiad cau yw'r 28ain o Hydref 2021. I gynorthwyo'r broses benodi ac annog mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr, Mae'r Cynghorydd Judith Humphreys a Mrs. Sarah Hattle wedi paratoi cyflwyniadau fideo byr sy'n hynod ddefnyddiol.

(3) Cyn bo hir bydd Mr Emyr Roberts, Pennaeth Cyllid, yn cychwyn ar gyfnod o ymddeoliad hyblyg. Mae Ms Sian Owens wedi cael ei phenodi fel Pennaeth newydd Cyllid a bydd yn dechrau yn ei swydd ar y 1af o Dachwedd 2021.

(4) hefyd, bydd Mr Dafydd Edwards yn ymddeol o'i rôl gyda Chyngor Gwynedd ond bydd yn aros fel Swyddog Adran 151 y Parc Cenedlaethol, a fydd yn rhoi sefydlogrwydd i'r Awdurdod tan fis Mehefin 2023. Bydd Mr Edwards yn parhau i fod yn gyfrifol am gronfa bensiwn Gwynedd a bydd hefyd yn ymwneud â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Gogledd Cymru.

(5) Bydd Archwilio Cymru, fel rhan o'u craffu ar berfformiad, yn cynnal adolygiad o dwristiaeth gynaliadwy gyda swyddogion ac Aelodau perthnasol yr Awdurdod.

(6) Rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw i’r aelodau y bydd Cwmni Rheilffordd Yr Wyddfa yn gwneud gwaith cynnal a chadw sylweddol ar y trac rheilffordd y flwyddyn nesaf gyda’r posibilrwydd y bydd Hafod Eryri yn parhau ar gau am flwyddyn arall. Rhoddir manylion pellach i'r aelodau am y mater pan fyddant ar gael.

3. **Cyfle i’r Cyhoedd Holi Cwestiynau**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Yn amodol bod y cofnodion ar gyfer y 9fed o Fehefin 2021 yn cael eu cywiro, fel a ganlyn: -

<u>Eitem Rhif 10 - Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgor Grwpiau a Chynrychiolaeth Allanol</u>

Para. 5 (iii) dylai ddarllen y Cynghorydd Alwyn “*Gruffydd*”, a

<u>Eitem Rhif 20 - Adroddiad Gweithgor yr Aelodau</u>

I gywiro'r cofnodion Cymraeg i ddarllen “Cyflwynwyd – Adroddiad Gweithgor a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021”,

derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 9fed o Fehefin a 30ain o Fehefin 2021a llofnododd y Cadeirydd hwy fel gwir gofnodion.

6. **Materion er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion dyddiedig 9fed o Fehefin 2021**

Eitem Rhif 14 - Trefniadau ar gyfer Cyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau

Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddariad i'r Aelodau bod y Rheolwr Systemau Gwybodaeth yn edrych ar y dechnoleg sy'n newid yn gyflym i gefnogi cyfarfodydd hybrid, ond gan fod lefelau Covid yn parhau i fod yn ansicr a bod y farchnad meddalwedd a chaledwedd yn newid yn barhaus, fe allai fod o fudd i oedi buddsoddi yn y dechnoleg newydd am y tro. Yn codi ar hynny, nododd Aelod ei fod wedi mynychu cyfarfod 'hybrid' diweddar a bod yr holl gynrychiolwyr wedi mynychu yn bersonol, a oedd yn rhywbeth i'w gofio wrth fuddsoddi yn y dechnoleg newydd hon.

Eitem Rhif 22 - Cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru

Dywedodd y Prif Weithredwr, mewn ymateb i gwestiwn, nad oedd y Parciau Cenedlaethol yn cael eu gwahodd i fynychu'r Gynhadledd Newid Hinsawdd COP26. Byddai Cadeirydd Partneriaeth y Parc Cenedlaethol gyda chefnogaeth y Palladium Group, yn cynrychioli buddiannau Parciau Cenedlaethol y DU yn y Gynhadledd trwy gyfarfodydd safle. Ar hyn o bryd roedd tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn trafod gyda Palladium mewn perthynas â materion sy'n benodol i Gymru. Nododd y Prif Weithredwr bryderon bod cwmnïau'n prynu coetiroedd / ardaloedd er mwyn rheoli eu hôl troed carbon. Hefyd, roedd y Prif Weithredwr yn aros am ganlyniad cyfarfod diweddar gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

7. **Cofnod Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log / cofnod o gamau strategol sy'n codi o benderfyniadau a gymerwyd yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i weithredu arnynt.

Cyfarfod yr Awdurdod 10.04.19
Eitem Weithredu 12 - Maniffesto Ieuenctid Europarc a
Chyfarfod yr Awdurdod 09.12.20
Eitem Gweithredu 7 - Log / cofnod Gweithredu

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod disgrifiad swydd y Swyddog Ieuenctid wedi'i gwblhau a'i fod yn aros i gael ei werthuso gan y Panel Gwerthuso Swyddi cyn hysbysebu'r swydd wag.

Cyfarfod Awdurdod 25.09.19
Eitem Gweithredu 8 - Diweddariad ar y Gyllideb
Is-grŵp Asedau

Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Ebrill 2022. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd bod yna benodiad bellach wedi'i wneud i'r swydd Swyddog Eiddo sydd newydd ei chreu.

Cyfarfod Awdurdod 09.12.20
Eitem Gweithredu 10 - Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2021/22

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y bydd adroddiad diweddaru ar Wariant Symiau Cymuededig Tai Fforddiadwy yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 1af o Ragfyr 2021.

Cyfarfod yr Awdurdod 03.02.21
Eitem Gweithredu 2 - Diweddariad Corfforaethol

Dywedodd y Prif Weithredwr bod adroddiad ar delerau ac amodau staff yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau ar yr 20fed o Hydref 2021. Bydd hwn yn gyfle i Aelodau ystyried a ddylid sefydlu diwrnod o wyliau ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant yn barhaol.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariadau i'r Log / Cofnod Gweithredu.**

8. **Diweddariad ar y Gyllideb 2021-22**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid i roi gwybod i'r aelodau ynghylch trosglwyddiadau / symudiadau ariannol sylweddol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r sefyllfa derfynol a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad a rhoi gwybodaeth bellach i'r aelodau am y ffigurau manwl.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle, ar ran yr Aelodau, i ddiolch i'r Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Cyllid am eu gwaith dros y blynyddoedd.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **yn ddarostyngedig i gynyddu'r tanwariant amcangyfrifedig o £60k i £85k, - cynnwys yr arbediad net ar linellau o fewn y gyllideb Rheoli Corfforaethol sy'n codi'n bennaf o'r swydd Cynorthwyydd Gweinyddol gwag.**
3. **cadarnhau'r trosglwyddiadau i / o gronfeydd wrth gefn fel yr amlinellir ym mharagraff 1.2 a cholofn "Trosglwyddiadau" y tabl ym mharagraff 3.1.**

9. **Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21**

Cyflwynwyd - Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau nodi cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft a'r trefniadau ar gyfer y cyfnod arolygu gan aelodau'r cyhoedd.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a chynghorodd y bydd y Datganiad Cyfrifon archwiliedig (ac wedi'i addasu) yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Arbennig o'r Awdurdod ar 24 Tachwedd 2021, i'w cymeradwyo.

Yn codi ar hynny, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr hyn a ganlyn: -

- Sicrhawyd yr aelodau na fyddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio lefel y balansau fel rheswm i ostwng y gyllideb gan fod y mwyafrif o Awdurdodau Lleol wedi gweld eu balansau yn cynyddu oherwydd Covid 19, ac yn derbyn eu grantiau yn hwyr gan Lywodraeth Cymru.
- yn codi ar hynny, roedd y Prif Weithredwr yn teimlo mai'r prif risg oedd i brosiectau fel y cynlluniau tirweddau cynaliadwy, oherwydd diffyg capasiti staff, nwyddau ddim ar gael a diffyg contractwyr i'w llogi. Nid yw prosiectau a ariennir trwy gronfeydd cyfalaf flwyddyn ar ôl blwyddyn yn caniatáu i'r Awdurdod weithio mewn ffordd strategol yn ôl y disgwyl gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod Tirweddau Cymru / Landscapes Wales yn cyfarfod â swyddogion o Lywodraeth Cymru yfory i drafod materion cyllido a phroblemau cysylltiedig.
- cynghorodd y Prif Swyddog Cyllid ymhellach y byddai adroddiad ar yr adolygiad o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ar yr 20fed o Hydref 2021, er na fydd yn ofynnol i Aelodau wneud unrhyw benderfyniadau ar y cronfeydd wrth gefn nes bod yr Awdurdod wedi derbyn rhybudd o'i setliad grant ym mis Rhagfyr 2021.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Datganiad Cyfrifon drafft 2020/21.**

10. **Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella 2020-21**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i fabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant a chymeradwyo ei

gyhoeddi erbyn y 31ain o Hydref 2021. Cyflwynwyd adroddiad y Cadeirydd hefyd fel dogfen ar wahân ar gyfer Aelodau.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella. Dywedodd, ar ôl mabwysiadu'r Datganiad Llesiant 2021 - 2026, fod y broses bellach wedi newid, a dyma'r tro olaf y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno yn y fformat hwn o dan y Mesur Llywodraeth Leol.

Yn codi ar hynny, gofynnodd Aelod i adroddiad y Cadeirydd, yn y dyfodol, gyfeirio at 'adfer natur' o dan y pennawd "Helpu'r frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd".

**PENDERFYNWYD yn amodol ar nodi'r uchod, mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella ar gyfer 2020-21 a chymeradwyo ei gyhoeddi erbyn y 31ain o Hydref 2021.**

11. **Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu - Enwau Lleoedd**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yn crynhoi'r Broses Archwilio ar amddiffyn a hyrwyddo Enwau Lleoedd Eryri.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ei adroddiad a chroesawodd y broses a oedd wedi dilyn methodoleg glir, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Yn codi ar hynny, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr hyn a ganlyn: -

- manteisiodd Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am eu gwaith a diolchodd i Dr. Dylan Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, a Dr. Eleri James, Swyddog Datblygu gyda Chomisiynydd Iaith Cymru am eu harweiniad.
- adroddodd Aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen y dylai gwaith pellach gynnwys defnyddio paneli gwybodaeth gyda mapiau yn dangos yr enwau Cymraeg.
- mewn ymateb i bryder a godwyd gan Aelod nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfod yr Awdurdod, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, gan nad oedd y fethodoleg yn darparu atebion ar gyfer delio ag enwau lleoedd sydd â mwy nag un enw yn cael eu defnyddio, ar gyfer er enghraifft “Yr Wyddfa / Snowdon”, roedd swyddogion yn aros am gyngor pellach ar y mater gan Dr. Evans a Dr. James, ym mis Rhagfyr o bosibl.
- cytunodd Aelod y dylai enwau lleoedd Cymru gael blaenoriaeth amlycach, ond roedd yn teimlo y dylid ystyried rhai enwau Saesneg, sydd wedi bod yn cael eu defnyddio ers amser hir iawn, ac roeddent yn teimlo bod gan yr Awdurdod rôl i'w chwarae yn y ffordd y mae'n cyfleu'r wybodaeth hon.
- nododd Aelod fod enwau lleoedd Cymru yn ganrifoedd oed ac mai dim ond tua 170 mlynedd yn ôl y dechreuodd dylanwad y Saesneg ar enwau lleoedd Cymru.
- mewn ymateb i gwestiwn, roedd y Prif Weithredwr yn teimlo, oherwydd natur barhaus y gwaith, y dylid ei drosglwyddo o'r Panel Craffu i weithredu fel Grŵp Llywio, gan gwrdd bob ychydig fisoedd, a fyddai'n caniatáu i'r gwaith barhau a hefyd byddai ar gael i gynghori'r Awdurdod yn ôl yr angen. Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu yn ystyried ymhellach yr egwyddor o drosglwyddo rôl Grŵp Tasg a Gorffen i Grŵp Llywio.
- cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod Mei Macintyre Huws, Swyddog Enwau Lleoedd Cymraeg Cyngor Gwynedd wedi gweithio gyda'r Panel Craffu a bydd yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Llywio. Cytunodd yr aelodau i estyn yr un gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynychu'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen.

- dywedodd y Cyfarwyddwr Rheoli Tir fod Dr. Eleri James yn gobeithio y gall y fethodoleg hon gael ei defnyddio gan Awdurdodau eraill ledled Cymru yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

1. **cefnogi'r defnydd o'r fethodoleg a gynigiwyd gan Dr Evans wrth lunio rhestr safonol o enwau lleoedd i'w defnyddio gan yr Awdurdod mewn unrhyw ohebiaeth swyddogol.**
2. **y gronfa ddata o enwau lleoedd i'w hanfon at Banel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd (gan ddechrau gyda'r 200 o lynnoedd sydd eisoes wedi'u hasesu, ond dros amser i gynnwys y gronfa ddata lawn).**
3. **y Panel i dderbyn cyngor pellach gan Dr Evans a Dr James ar yr opsiynau posibl a allai fod yn agored i'r Awdurdod ar sut i fynd i'r afael ag enwau lleoedd sydd â mwy nag 1 enw, o ran defnydd cyffredin - a throsglwyddo hwn yn ôl i'r Awdurdod i'w gymeradwyo.**
4. **dylai'r Panel drafod y ffordd orau i'r enwau lleoedd yn Eryri gael eu defnyddio a'u hyrwyddo, ac adrodd yn ôl ar hyn er mwyn i'r Awdurdod ei gymeradwyo.**
5. **o ystyried natur barhaus y llif gwaith hwn, bod Grŵp Llywio (gyda'r un Aelodaeth) yn disodli'r Panel Craffu a all fynd i'r afael â'r rhain ac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag enwau lleoedd a godir yn y dyfodol, yn ôl y gofyn.**
6. **i estyn gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynychu'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen.**

12. **Y Siarter Creu Lle**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Swyddog Polisi Cynllunio ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gytuno’n ffurfiol i'r Siarter Gwneud Lle.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Swyddog Polisi Cynllunio'r adroddiad a chynghorodd fod egwyddorion y siarter eisoes yn cael eu gweithredu trwy Gynllun Datblygu Lleol Eryri a Chynllun Eryri a'u bod wedi'u mabwysiadu ym Mholisi Cynllunio Cymru. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o blaid y siarter a bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro eisoes wedi ymuno â'r siarter.

Yn codi ar hynny, trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr hyn â ganlyn: -

- nododd Aelod y dylai swyddogion fod yn ymwybodol o sut y maent yn gweithredu'r siarter i sicrhau nad yw'n creu unrhyw rwymedigaethau ychwanegol i ymgeiswyr / asiantau. Cadarnhaodd y Swyddog Polisi Cynllunio nad oedd y siarter yn creu unrhyw rwymedigaethau ychwanegol, fel yr amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad.
- mewn perthynas â Pholisi Datblygu 18: Y Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau, dywedodd y Swyddog Polisi Cynllunio nad oedd yn bosibl gwneud diwygiadau i'r siarter ar yr adeg hon, er y byddai'n bosibl edrych ar ymestyn yr egwyddorion o'r siarter pan fydd adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol yn digwydd ymhen 2-3 blynedd.

**PENDERFYNWYD**

1. **rhoi cymeradwyaeth i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lofnodi'r siarter.**
2. **cydnabod yn ffurfiol y dull o weithredu'r siarter i ategu Polisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol.**

13. **Adroddiad Gweithgor yr Aelodau**
Cyflwynwyd - Adroddiadau o Weithgorau Aelodau a gynhaliwyd ar y 19eg o Fai a'r 30ain o Fehefin 2021.

Yn codi ar hynny,
Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar y 30ain o Fehefin 2021
Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod wedi gwneud cyswllt cychwynnol gyda Phrif Weithredwyr y ddau Awdurdod Parciau Cenedlaethol Yr Alban ynghylch eu 3ydd a'u 4ydd pwrpas a bydd yn cynnal trafodaethau pellach cyn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

14. **Cyfarfodydd Sefydliadau eraill**
Cyflwynwyd - Diweddariad llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau y mae'r Aelodau wedi eu mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Cynhadledd Europarc (Rhithwir)
- Roedd Ms Tracey Evans : yn siomedig nad oedd wedi elwa o fynychu'r Gynhadledd gan y bu nifer o faterion technegol.
- Y Cynghorydd Judith Humphreys : ni ddioddefodd unrhyw broblemau technegol ac roedd yn ddiolchgar am y cyfle i fynychu'r Gynhadledd. Mynychodd y Cyng. Humphreys y Gweithdy "Sbotolau ar Ieuenctid" lle'r oedd trafodaethau wedi canolbwyntio ar sut i ymgysylltu â phobl ifanc. Derbyniodd yr holl Barciau Cenedlaethol, er eu bod yn cydnabod yr un heriau o ran gallu, cyllid, a'r pandemig, gyflwyniad diddorol ar brosiect o'r Iseldiroedd, lle awgrymwyd y dylid cysylltu â phlant ysgolion cynradd. Awgrym arall oedd y dylid gwahodd pobl ifanc i gwrdd wyneb yn wyneb ag Aelodau'r Awdurdod fel rhan o'r bwrdd, neu o bosibl i sefydlu Bwrdd Ieuenctid ar wahân. Gellid sefydlu cynllun cyfeillion ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol ac ar fin gadael, fel y gallent drosglwyddo eu gwybodaeth i berson ifanc newydd. Hefyd, trafodwyd pwysigrwydd cysylltu â phobl ifanc o ardaloedd trefol ynghyd â sefydlu cynllun interniaid Europarc. Nododd y Cyng. Humphreys fod Eryri wedi gefeillio â Pharc Cenedlaethol Triglav yn Slofenia, a oedd yn awyddus iawn i weithio gyda'u pobl ifanc ac a allai ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth ieuenctid.
- Y Cynghorydd Wyn Ellis Jones : dioddefodd rai materion technegol ynghyd â'r gwahaniaeth amser a oedd wedi creu rhai problemau. Roedd y cyflwyniadau yn dda iawn, ac roedd yn ddiddorol nodi bod gwledydd ledled Ewrop wedi dioddef o'r un problemau twristiaeth ag a brofwyd yn Eryri.

Y Cynghorydd Annwen Hughes - Cynhadledd Cyswllt Rheilffordd Arfordir Cambrian
- wedi mynychu cyfarfod rhithwir ar y 1af o Hydref 2021 yn ddiweddar lle cafodd Cadeirydd y Grŵp Cyswllt a'r Is-gadeirydd eu penodi.
- Cadarnhaodd Network Rail fod 85% -90% o'r gwasanaeth rheilffordd bellach yn weithredol.
- roedd gwaith cynnal a chadw ar bont Bermo yn parhau gyda gwasanaeth bws newydd i ddisodli'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Pwllheli a Machynlleth.
- roedd y bont i fod i ail agor ar y 12fed o Ragfyr 2021 a bydd yr holl orsafoedd trên a gaewyd oherwydd covid hefyd yn cael eu hail agor bryd hynny.

Mr Owain Wyn - Partneriaeth Biosffer Dyfi
- er nad oedd wedi gallu mynychu'r cyfarfod, dywedwyd wrth yr Aelodau bod cais wedi'i gyflwyno am gefnogaeth y Llywodraeth i sefydlu tîm i weithredu'r

bartneriaeth dros gyfnod o 3 blynedd. Os yn bosibl, byddai copi o gais Partneriaeth Ecodyfi yn cael ei gylchredeg maes o law.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Aelodau a nodi'r adroddiadau.**

15. **Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth: -

(1) Cofnodion y Parciau Cenedlaethol - Cyfarfod Gweithredol Cymru a gynhaliwyd ar yr 19$^{eg}$ o Fawrth 2021.

(2) Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 14$^{eg}$ o Orffennaf 2021.

(3) Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 3$^{ydd}$ o Fedi 2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.35**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 10.04.2019

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 12. Maniffesto Ieuenctid Europarc | **PENDERFYNWYD sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i wneud gwaith pellach ar hyn ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr.** | Swyddogion i alw cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Maniffesto Ieuenctid. | HP/AD | Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen cychwynnol wedi'i gynnal, gyda Grŵp Tasg a Gorffen pellach ym mis Mawrth 2020.<br><br>Disgrifiad swydd ar gyfer Swyddog Ieuenctid yn cael ei baratoi fel rôl ar y cyd rhwng y Pennaeth Wardeiniaid a'r Pennaeth Ymgysylltu. Bydd y swyddog yn arwain ar ddatblygu Maniffesto Ieuenctid lleol.<br><br>Disgrifiad swydd Swyddog Ieuenctid wedi'i gwblhau a'i werthuso. Mae'r swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd, dyddiad cau 10.12.21. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 25.09.2019

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Diweddariad o'r gyllideb | - **adroddiad ar y pwysau cyllidebol a wynebir gan yr Adran Eiddo i'w gyflwyno i Weithgor y dyfodol.** | Cyflwyno'r adroddiadau. | EJ | Diweddariad - Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau ar 4 Mawrth 2020 ac ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu pwysau cyllidebol ac argymhellion i ail-fuddsoddi incwm o safleoedd cynhyrchu incwm mewn cyllidebau cynnal a chadw yn y dyfodol o 2021/22 ymlaen. Adroddiad dilynol i'w baratoi ar gyfer pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref. Nodwyd bod Covid 19 yn risg bosibl ac mae wedi arwain at ohirio'r adroddiad oherwydd pwysau ariannol ehangach yn deillio o'r pandemig.<br>Bu i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod ar 15fed Ionawr 2021. Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Ebrill 2022 ac mae penodiad wedi'i wneud i'r swydd Swyddog Eiddo sydd newydd ei chreu. | **NA** |
| | - **adroddiad gan Grŵp Prosiect Yr Ysgwrn i'w gyflwyno i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.** | | NJ | Diweddariad - ar ddiwedd tymor 2021 bydd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Yr Ysgwrn cyn ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ddiwedd 2021 / dechrau 2022 | |
| | - **rhoi copi o ddyfarniad Aberdyfi i'r Aelodau unwaith y bydd ar gael.** | I e-bostio Aelodau gyda'r dyfarniad. | GIJ | Rhoddwyd copi o'r dyfarniad i'r Aelodau ar 28.11.19.<br>**CWBLHAWYD** | |

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.12.2020

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 Taflen Gweithredu | **Cyfarfod yr Awdurdod 10.04.19**<br>**Eitem Weithredu 12 - Maniffesto Ieuenctid Europarc** | Symud ymlaen gyda'r weithred yma fel mater o frys. | HP/AD | (Gweler y diweddariad uchod Awdurdod 10.04.19 - Eitem Rhif 12)<br>Disgrifiad swydd Swyddog Ieuenctid wedi'i gwblhau ac yn aros i gael ei werthuso. | **NA** |
| 10. Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2021/22 | **Cytunodd y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i roi diweddariad i'r Aelodau am Wariant Symiau Cymudo Tai Fforddiadwy.** | Cyflwyno'r adroddiad diweddaru.. | JC | I'w adrodd i'r Aelodau yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Mawrth neu fis Ebrill 2021. Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 1$^{af}$ o Ragfyr 2021.<br>**CWBLHAWYD** | **IA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 03.02.2021

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 2. Diweddariad Corfforaethol | **PENDERFYNWYD aros am adroddiad pellach i'r Aelodau ystyried a ddylid sefydlu gwyliau i'r holl staff ar Ddydd Gŵyl Dewi yn barhaol yn y dyfodol.** | Cyflwyno adroddiad pellach. | PW / Cadeirydd | I'w ystyried pan fydd telerau ac amodau staff i'w cyflwyno i'r Awdurdod. Diweddariad – Bydd cyfle i Aelodau ystyried y mater yng nghyfarfod y Gweithgor Aelodau ar 1af Rhagfyr 2021. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 13.10.2021

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 11. **Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu - Enwau Lleoedd** | **PENDERFYNWYD**<br>**1. disgwyl cyngor pellach ar yr opsiynau posibl a allai fod yn agored i'r Awdurdod ar sut i fynd i'r afael ag enwau lleoedd sydd â mwy nag 1 enw.**<br>**2. disgwyl adroddiad gan y Panel ar y ffordd orau i'r enwau lleoedd yn Eryri gael eu defnyddio a'u hyrwyddo.**<br>**3. bod y Grŵp Llywio (gyda'r un Aelodaeth) yn disodli'r Panel Craffu i fynd i'r afael â'r unrhyw faterion sy'n ymwneud ag enwau lleoedd a godir yn y dyfodol, ac i estyn gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynychu'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen.** | Cyflwyno adroddiad pellach maes o law. | JC | Bydd cyfarfod nesaf y Panel Craffu Enwau Lleoedd yn cael ei gynnal ddechrau mis Chwefror ac nid ym mis Rhagfyr fel y rhagwelwyd yn flaenorol oherwydd llwyth gwaith trwm Dr Foster-Evans, Prifysgol Caerdydd. | **NA** |

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** 2716A2021-22

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2021

# Archwiliad o Asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o Berfformiad 2020-21

## Tystysgrif

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2020-21 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad yn flynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod ei hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr wybodaeth y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad i benderfynu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, i ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac i adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb gwybodaeth. Roedd fy archwiliad o asesiad perfformiad yr Awdurdod, felly, yn cynnwys adolygiad o gyhoeddiad yr Awdurdod i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur er mwyn nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Rebecca Evans AS – Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Nick Selwyn – Rheolwr Archwilio

**EITEM RHIF 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 8 Rhagfyr 2021 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD O GYLLIDEB 2021-22** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | I hysbysu Aelodau –<br>• o drosglwyddiadau sylweddol,<br>• o'r cynnydd yn erbyn y gyllideb refeniw a chyfalaf,<br>• ynghyd ag amcan o'r sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2021-22 gyda newidiadau sy'n adlewyrchu saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol, h.y.1 Ebrill 2021 hyd y 31 Hydref 2021.

1.2 Mae llithriad a thanwariant o flynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21 wedi eu ychwanegu i'r gyllideb a £120,193 perthnasol i'r gwasanaeth Wardeiniaid a Phlas Tan y Bwlch wedi ei drosglwyddo i'r gronfa Prosiectau.

1.3 Mae rhan 4 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb net refeniw, ynghyd ag amcan o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

1.4 Mae'r cyllidebau perthnasol i'r Gwasanaeth Wardeiniaid a Mynediad wedi eu symud o'r gyfarwyddiaeth Cynllunio a Rheoli Tir i'r gyfarwyddiaeth Corfforaethol.

1.5 Mae'r Awdurdod wedi derbyn cymorth ariannol yn sgîl effaith Covid19 yn cynnwys :

- Grant Cymorth Llywodraeth Cymru am chwarter cyntaf 2021/22 gwerth £102,730, gyda chais pellach am yr ail chwarter gwerth £105,283 wedi ei chyflwyno ganol Hydref.
- Gostyngiadau Trethi
- Ad-daliadau trwy'r cynllun (Ffyrlo) seibiant swyddi £24,857

1.6 Yn dilyn derbyn cynnydd yn y grant Parc Cenedlaethol o 10% am 2021/22, mae'r Awdurdod gyda gwarged o £476,251 yn aros i'w glustnodi ar gyfer dibenion penodol, yn cynnwys cynyddu capasiti'r Awdurdod, agenda dad-carboneiddio ac ymrwymiadau cyfalaf.

1.7 Mae'r grant cyfalaf gwerth £314,530 a dderbyniwyd yn 2020/21 wedi ei ddyrannu i nifer o brosiectau yn 2021/22.

1.8 Mae peth o gynlluniau grant prosiectau 'Tirwedd Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy' (TCLlC) 2020/21 wedi eu cario trosodd i 2021/22 i'w cwblhau. Mae grant TCLlC pellach gwerth £900,000 wedi ei gymeradwyo i'r Awdurdod am 2021/22 sy'n cynnwys gwerth £81,818 o ffi gweinyddu.

## 2. CYLLIDEB REFENIW DDIWYGIEDIG 2021-22

2.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 3 Chwefror 2021.

Gwelir ddyraniadau o gronfeydd yn y colofnau 'Trosglwyddiadau' yn y tabl isod :-

| **Meysydd Gwasanaeth** | **Cyllideb Net Wreiddiol** (£) | **Trosgl. cynt** (£) | **Trosgl. newydd** (£) | **Cyllideb Net Ddiwygiedig** (£) |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a Rheoli Tir | 1,545,500 | 11,186 | 5,980 | 1,562,666 |
| Corfforaethol | 5,064,911 | 242,973 | 10,000 | 5,317,884 |
| Balansau, Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau | 10,000 | 0 | -10,000 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant i Wasanaethau** | **6,620,411** | **254,159** | **5,980** | **6,880,550** |
| Llog ar falansau | -8,000 | 0 | 0 | -8,000 |
| Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf | 1,636,048 | -70,772 | 198,316 | 1,763,592 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | -591,050 | 0 | 0 | -591,050 |
| **Cyllideb Net** | **7,657,409** | **183,387** | **204,296** | **8,045,092** |
| | | | | |
| **ARIANNWYD O** | | | | |
| Grant y Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | 4,119,789 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | | 1,373,262 |
| | 5,493,051 | | | 5,493,051 |
| Cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn: | 2,164,358 | 183,387 | 204,296 | 2,552,041 |
| **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **7,657,409** | | | **8,045,092** |

2.2 Mae dadansoddiad manwl yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig, yn ôl pob gwasanaeth ar 31 Hydref 2021, i'w weld yn Atodiad 1.

2.3 Mae'r cynnydd net o £204,296 yn y golofn "trosglwyddiadau newydd" yn cynrhychioli'r gweddill ar grantiau 'Tirwedd Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy' (T.C.Ll.C.) o 2020/21 a ychwanegwyd i gyllideb sylfaenol 2021/22.

| | |
|---|---:|
| Refeniw | 13,395 |
| Cyfalaf | 190,901 |
| | £204,296 |

## 3. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

3.1 Dangosir crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf 2021/22 yn y tabl canlynol, gyda'r manylder yn Atodiad 2:

| Cyllideb Cyfalaf 2021/22 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meysydd Gwasanaeth** | **Cyllideb Gros Wreiddiol** | **Incwm Grant** | **Cyllideb Net Wreiddiol** | **Trosgl. Cynt** | **Trosgl. Newydd** | **Cyllideb Net Ddiwygiedig** |
| | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 40,000 | - | 40,000 | - | - | 40,000 |
| Corfforaethol | 1,096,650 | -508,670 | 587,980 | 96,969 | 113,018 | 797,967 |
| **Cyfanswm** | **2,144,718** | **-508,670** | **1,636,048** | **-70,772** | **190,901** | **1,756,177** |

3.2 Mae'r cynnydd yn y golofn trosglwyddiadau newydd yn cynrhychioli'r elfen cyfalaf o'r grantiau T.C.Ll.C a nodwyd eisoes.

## 4. SEFYLLFA RAGWELEDIG 2021/22

4.1 Mae'r Tîm Rheoli yn anelu i gadw gwariant net eleni o fewn yr adnoddau ar gael, gyda'r dewis o gyfraniad o gronfeydd wrth gefn yn ôl yr angen. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cynnydd hyd 31 Hydref 2021 yn erbyn y gyllideb, a thafluniad o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (fel y trafodwyd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Cyfarwyddwyr). Pwysleisir fel y gall y rhagamcan hwn o'r ffigyrau newid erbyn diwedd y flwyddyn.

Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys unrhyw amcan cost perthnasol i'r adolygiad sydd ar y gweill o gyflogau staff yr Awdurdod.

| Meysydd Gwasanaeth | Cyllideb Net Dd'gedig (£) | Gwariant Net hyd yma (£) | Tafluniad diwedd blwyddyn (£) | Gwahaniaeth a ragwelir (£) |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a Rheoli Tir | 1,562,666 | 341,390 | 1,552,666 | 10,000 |
| Corfforaethol | 5,317,884 | 2,085,279 | 5,250,884 | 67,000 |
| Balansau, Wrth Gefn a Darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant i Wasanaethau** | **6,880,550** | **2,426,669** | **6,803,550** | **77,000** |
| Llog a Enillwyd ar Gronfeydd Dros Ben | -8,000 | -2,980 | -8,000 | 0 |
| Cyfraniad refeniw ar wariant cyfalaf | 1,763,592 | 522,390 | 1,763,592 | 0 |
| Addasiad Taliadau cyfalaf | -591,050 | -344,779 | -591,050 | 0 |
| **Cyllideb Refeniw Net** | **8,045,092** | **2,601,300** | **7,968,092** | **77,000** |
| **Rhagolwg balans Net (+) / diffyg (-) for 2021/22** | | | | **77,000** |
| **<u>WEDI EI ARIANNU O</u>** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | | |
| Cyfr. o gronfeydd wrth gefn | 2,164,358 | | | |
| **Cyllideb Net Wreiddiol** | **7,657,409** | | | |
| Cyfr. o gronfeydd wrth gefn | 387,683 | | | |
| **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **8,045,092** | | | |

4.2 I grynhoi, y rhagolwg at ddiwedd y flwyddyn ar yr adeg hwn ydy tanwariant o £77,000. Mae cafeat ar hyn o ran unrhyw ddirywiad yn y sefyllfa Covid19, a’r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i osod yn erbyn cost ariannol y pandemig.

Cyflwynir isod esboniadau y prif amrywiannau a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn, ac addasiadau o ganlyniad i hynny, gan ganolbwyntio'n bennaf ar symiau o £10,000 a throsodd.

4.3 **<u>Corfforaethol</u>**: Rhagwelir gwarged o oddeutu £67,000. Mae’r prif amrywiadau fel a ganlyn :

<u>Plas Tan y Bwlch</u> – amcan o oddeutu £42,000 gor-wariant. Rhagwelir rhagori ar y targed incwm o wely a brecwast, cyrsiau a gosod ystafelloedd cyfarfod, ond yr incwm tariff trydan yn îs na’r targed cyllideb, er rhagwelir gwelliant sylweddol ar llynedd. O ran y gyllideb gwariant, mae’r prif or-wariannau ar gyflogaeth, costau ynni a chomisiwn booking.com. Gan fod hon yn flwyddyn gyntaf o weithredu trefn busnes newydd gallwn gynnwys yr addasiadau angenrheidiol yng nghyllideb 2022/23 i roi adlewyrchiad gwell o broffil ariannol y gwasanaeth, ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau parthed ffrydiau incwm newydd.

<u>Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr</u> – Mae’r Pennaeth Eiddo, gyda chefnogaeth y tîm Rheoli, yn bwriadu cadw unrhyw warged wrth gefn at gostau cyfalaf sydd dan ystyriaeth yn cynnwys costau’n deillio o’r arolwg eiddo.

Cyfieithu – rhagwelir tan-wariant o oddeutu £20,000 yn deillio o ddefnydd cyfieithwyr allanol yn hytrach na chyflogi cyfieithydd.

Cyfreithiol – mae achos Hillside, Aberdyfi yn dal heb dderbyn gwrandawiad ac felly'r goblygiadau ariannol yn dal yn annelwig. O safbwynt yr adroddiad hwn cymerir cost net y gwasanaeth yn wastad yn erbyn y gyllideb.

Rheolaeth Corfforaethol – amcan o oddeutu £14,000 o dan-wariant. Mae swydd cynorthwy-ydd yn wag ac hefyd mae llinell gwarged o £476,251 heb ymrwymiad yn ei erbyn hyd yma, ond i'w glustnodi ar gyfer dibennion penodol fel ag a nodwyd ym mharagraff 1.6.

Personel – amcan o oddeutu £15,000 tanwariant yn deillio o linellau cyllideb cyflogaeth a hyfforddiant.

Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer – amcan o oddeutu £16,000 tanwariant ar gyfuniad o linellau cyllideb cyflogaeth, trafnidiaeth a phostio.

Cynllun Eryri a Phartneriaethau – ar yr adeg hwn rhagwelir tanwariant ar y llinell cyllideb Cronfa Gomisiynu o oddeutu £23,000.

Wardeniaid - mae yma arbedion yn deillio o swyddi gweigion. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn defnyddio'r arbedion at ddibenion eraill o fewn y gwasanaeth gan gynnwys ailstrwythuro a phryniant dau uned lles.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir**: Ar y cyfan, mae'r amrywiaethau cyllideb a ragwelwyd yn dod i falans gwarged o £10,000 yn erbyn y gyllideb.

Treftadaeth Diwylliannol – rhagwelir tanwariant i'w glustnodi'n gyllideb ychwanegol ar gyfer y prosiect Harlech ac Ardudwy a chostau cyflogaeth ychwanegol Cynllunio fel bo'r angen.

Cynllunio – mae'r cynnydd gyda'r incwm ffioedd cynllunio yn gyson â chyrraedd y targed cyllideb. Mae arbedion yn y gyllideb cyflogaeth a'r llinell "prynu gwasanaeth i mewn" wedi eu defnyddio gan y Cyfarwyddwr i ehangu capasiti'r gwasanaeth dros dro.

Cadwraeth, Coed ac Amaeth – rhagwelir tanwariant o oddeutu £10,000 yn y llinellau cyllideb cyflogaeth a thrafnidiaeth.

4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau**: Mae'r balans gwaelodlin gwreiddiol o £10,000 yn ddarpariaeth chwyddiant wedi ei ddosrannu.

4.6 **Costau cyflog** : Nid oes cytundeb ar gynnydd chwyddiant 2021/22 hyd yma. Mae darpariaeth o £72,240 yn y gyllideb ddiwygiedig.

4.7 **Llog** : Mae'r cyfraddau llog yn dal yn isel iawn a bydd cyrraedd y targed gyllideb (fel gostyngwyd am eleni) yn heriol.

4.8 **<u>Cyfalaf</u>**: Mae'r prif wariant net hyd ddiwedd Hydref yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Safle Gwe | £71,796 |
| Ysgwrn (T.C.Ll.C 2020/21) | £52,506 |
| Cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Dolgellau | £47,608 |

**5. Trosglwyddiadau Rhwng Cyllidebau Dros £30,000 Er Sylw'r Awdurdod.**

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo yn flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

Nid oes achosion o'r fath yn saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

**6. ARGYMHELLIAD**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cadarnhau'r trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn ym mharagraff 1.2 a'r golofn 'Trosglwyddiadau Newydd' yn y tabl o dan paragraff 2.1**

**7. PAPURAU CEFNDIROL**
**Dim**

**Atodiad 1**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Cyllideb Ddiwygiedig 2021/22 ar 31 Hydref 2021

| | Cyllideb Sylfaenol £ | Trosgl. cynt £ | Trosgl. newydd £ | Cyllideb Net Ddiwygiedig £ |
|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | | | | |
| Coedwigwyr (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 17,395 | 17,395 |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 418,210 | -15,820 | -7,415 | 394,975 |
| Awyr Dywyll | 47,800 | 0 | 0 | 47,800 |
| Mawndir Cymru (grant Ll. Cymru) | 45,190 | 10 | 0 | 45,200 |
| Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain) | 91,160 | 0 | 0 | 91,160 |
| LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd | 74,860 | 0 | 0 | 74,860 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | 25,000 | 0 | 0 | 25,000 |
| Archeoleg | 60,340 | 2,746 | 0 | 63,086 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 70,480 | 0 | -4,000 | 66,480 |
| Treftadaeth Treflun Dolgellau | 22,510 | 0 | 0 | 22,510 |
| Cynllun Harlech ac Ardudwy | 61,110 | 0 | 0 | 61,110 |
| Ysgwrn | 94,190 | 0 | 0 | 94,190 |
| Cynllunio | 534,650 | 24,250 | 0 | 558,900 |
| **Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen** | **1,545,500** | **11,186** | **5,980** | **1,562,666** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Costau Aelodau | 103,510 | 0 | 4,000 | 107,510 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 84,810 | 0 | 0 | 84,810 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 1,104,401 | 60,578 | -13,000 | 1,151,979 |
| Eiddo | 259,330 | 0 | 0 | 259,330 |
| Cyfreithiol | 52,290 | 0 | 0 | 52,290 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 219,170 | -10,000 | 0 | 209,170 |
| Cyfieithu | 110,780 | 0 | 0 | 110,780 |
| Personel a Hyfforddiant | 108,250 | 0 | 0 | 108,250 |
| Pencadlys | 222,410 | 0 | 0 | 222,410 |
| Systemau Gwybodaeth | 318,780 | 0 | 0 | 318,780 |
| Cyllid | 167,570 | 10,000 | 14,000 | 191,570 |
| Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch | 286,450 | -5,240 | 5,000 | 286,210 |
| Ymgysylltu | 456,200 | 79,365 | 0 | 535,565 |
| Safle Gwe Newydd | 42,760 | 26,690 | 0 | 69,450 |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **3,536,711** | **161,393** | **10,000** | **3,708,104** |

Atodiad 1 (parhâd)

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Cyllideb Ddiwygiedig 2021/22 ar 31 Hydref 2021

| | Cyllideb Sylfaenol £ | Trosgl. cynt £ | Trosgl . newydd £ | Cyllideb Net Ddiwygiedig £ |
|---|---|---|---|---|
| **Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen** | | | | |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | **1,545,500** | **11,186** | **5,980** | **1,562,666** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | **3,536,711** | **161,393** | **10,000** | **3,708,104** |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant Ll.C.) | 20,010 | 0 | 0 | 20,010 |
| Llwybrau Llesiant (grant Ll.C.) | 40,000 | 0 | 0 | 40,000 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 280,330 | 91,746 | 0 | 372,076 |
| Canolfannau Gwybodaeth | 143,380 | -10,170 | 0 | 133,210 |
| Llyn Tegid | -19,940 | 0 | 0 | -19,940 |
| Meysydd Parcio | -423,580 | 0 | 0 | -423,580 |
| Clirio Ysbwriel | 19,510 | 0 | 0 | 19,510 |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 280,720 | 0 | 0 | 280,720 |
| Mynediad Cyhoeddus | 111,730 | 0 | 0 | 111,730 |
| Tim Y Wyddfa | 305,120 | 0 | 0 | 305,120 |
| Wardeniaid - Cyffredinol | 267,660 | 4 | 0 | 267,664 |
| Wardeniaid - Gogledd | 258,400 | 0 | 0 | 258,400 |
| Wardeniaid - De | 239,860 | 0 | 0 | 239,860 |
| | **5,064,911** | **242,973** | **10,000** | **5,317,884** |
| | | | | |
| **BALANSAU** | **10,000** | **0** | **-10,000** | **0** |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **6,620,411** | **254,159** | **5,980** | **6,880,550** |
| Llog a Enillwyd | -8,000 | 0 | 0 | -8,000 |
| Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf | 1,636,048 | -70,772 | 198,316 | 1,763,592 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | -591,050 | 0 | 0 | -591,050 |
| | **7,657,409** | **183,387** | **204,296** | **8,045,092** |
| **WEDI EI ARIANNU O** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | 4,119,789 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | | 1,373,262 |
| Tros o'r cronfeydd wrth gefn | 2,164,358 | 183,387 | 204,296 | 2,552,041 |
| **Cyllideb Net** | **7,657,409** | | | **8,045,092** |

| | | | | | | Atodiad 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyllideb Cyfalaf 2021/22** | | | | |
| **Meysydd Gwasanaeth** | **Cyllideb Gros Wreiddiol** | **Incwm Grant** | **Cyllideb Net Wreiddiol** | **Trosgl.** | **Trosgl. Newydd** | **Cyllideb Net Ddiwygiedig** |
| | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cynllunio a Rheoli Tir** | | | | | | |
| Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol | 113,080 | 0 | 113,080 | 69,046 | 0 | 182,126 |
| Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau | 685,480 | -508,670 | 176,810 | 0 | 0 | 176,810 |
| Cynllun Harlech ac Ardudwy | 40,000 | 0 | 40,000 | 0 | 0 | 40,000 |
| Carneddau - Data LiDAR (grant Ll. C.) | 17,590 | 0 | 17,590 | 0 | 0 | 17,590 |
| Carneddau - Llwybrau (grant Ll.C.) | 32,500 | 0 | 32,500 | 0 | 0 | 32,500 |
| Arsyllfa Symudol (grant Ll.C.) | 25,000 | 0 | 25,000 | 0 | 0 | 25,000 |
| Clwy'r Ynn (grant Ll. C.) | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 50,000 |
| Bioamrywiaeth (grant Ll. C.) | 75,000 | 0 | 75,000 | 0 | 0 | 75,000 |
| Dadansoddwr Nwy (cynllun mawndiroedd) | 0 | 0 | 0 | 27,923 | 0 | 27,923 |
| Gorseddau (grant Ll. C.) | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 50,000 |
| Gorffen Cynlluniau Grant Amrywiol (grant Ll. C.) | 8,000 | 0 | 8,000 | 0 | 0 | 8,000 |
| Coetiroedd (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 11,085 | 11,085 |
| Meithrinfa Goed (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,084 | 3,084 |
| Ysgwrn T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 98,849 | 98,849 |
| **Is-gyfanswm** | **1,096,650** | **-508,670** | **587,980** | **96,969** | **113,018** | **797,967** |
| | | | | | | |
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid. | 72,340 | 0 | 72,340 | 0 | 0 | 72,340 |
| Tech. Gwybodaeth at ddefnydd Cynllunio (grant Ll. C.) | 60,000 | 0 | 60,000 | 32,539 | 0 | 92,539 |
| Safle Gwe | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 0 | 10,000 |
| Dathliadau 70 oed (grant Ll.C.) | 30,000 | 0 | 30,000 | 0 | 0 | 30,000 |
| Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (grant Ll. C.) | 62,780 | 0 | 62,780 | -317 | 0 | 62,463 |
| Cynllun Dehongli'r Wyddfa (grant Ll.C.) | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 50,000 |
| Pwyntiau Trydan i Geir (grant Ll. C.) | 13,040 | 0 | 13,040 | -751 | 0 | 12,289 |
| Gwaith ailwynebu Meysydd Parcio ac ym Mhlas Tan y Bwlch (grant Ll. C.) | 40,000 | 0 | 40,000 | 0 | 0 | 40,000 |
| Can. Ogwen (cynllun TAIS) | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Betws y Coed (grant Ll.C.) | 77,780 | 0 | 77,780 | -635 | 0 | 77,145 |
| Gorsafoedd Ail-gyflenwi Dwr (grant Ll.C.) | 12,040 | 0 | 12,040 | 0 | 0 | 12,040 |
| Hafod Eryri (grant Ll. C 18/19) | 66,210 | 0 | 66,210 | -66,210 | 0 | 0 |
| Hafod Eryri (grant Ll. C 19/20) | 160,020 | 0 | 160,020 | -160,020 | 0 | 0 |
| Prosiectau Mynediad | 79,530 | 0 | 79,530 | 0 | 0 | 79,530 |
| Wardeniaid - Cerbydau | 14,000 | 0 | 14,000 | 68,802 | 0 | 82,802 |
| Penmaen Brith (grant Ll.C.) | 25,000 | 0 | 25,000 | 0 | 0 | 25,000 |
| Llyn Cynwch (grant Ll.C.) | 30,000 | 0 | 30,000 | 0 | 0 | 30,000 |
| Bwlch Mawr - Brithdir (Ll. C.) | 50,328 | 0 | 50,328 | -43,149 | 0 | 7,179 |
| Brithdir - Pen Ceunant (grant Ll .C.) | 40,000 | 0 | 40,000 | 0 | 0 | 40,000 |
| Nant Gwynant (grant Ll. C.) | 45,000 | 0 | 45,000 | 0 | 0 | 45,000 |
| Cadair Idris (grant Ll. C.) | 50,000 | 0 | 50,000 | 0 | 0 | 50,000 |
| Llyn Llywelyn (grant Ll. C.) | 30,000 | 0 | 30,000 | -6,250 | 0 | 23,750 |
| Lôn Gwyrfai (grant Ll. C.) | 30,000 | 0 | 30,000 | 0 | 0 | 30,000 |
| Ffridd Uchaf (grant Ll. C.) | 0 | | 0 | 6,250 | 0 | 6,250 |
| Morfa Dyffryn (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 22,250 | 22,250 |
| Llyn Nantlle (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,562 | 7,562 |
| Gwresogi'r Prif Swyddfa (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,485 | 20,485 |
| Gosod Paneli Solar (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,586 | 7,586 |
| Canolfan Ogwen (T.C.Ll.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 20,000 |
| **Is-gyfanswm** | **1,048,068** | **0** | **1,048,068** | **-167,741** | **77,883** | **958,210** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **2,144,718** | **-508,670** | **1,636,048** | **-70,772** | **190,901** | **1,756,177** |

**EITEM RHIF 12**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI** |
| **DYDDIAD:** | 08fed Rhagfyr, 2021 |
| **TEITL:** | **GWYTNWCH YR AWDURDOD: TELERAU AC AMODAU STAFF** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Aelodau i drafod a chytuno ar delerau ac amodau staff ac i awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymgynghori'n ffurfiol ar yr adolygiad o'r bandiau/ colofn gyflog ac adrodd yn ôl i'r aelodau |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn dilyn adolygiad ac adroddiad dilynol Archwilio Cymru ar wytnwch yr Awdurdod wrth ddarparu ei wasanaethau, amlygwyd materion gweithlu penodol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. Paratowyd adroddiadau yn tynnu sylw at y materion a chafodd yr Aelodau gyfle i drafod ac ystyried yr amrywiol faterion yn ystod cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau ym mis Mehefin, Hydref a Rhagfyr 2021.

Roedd yr adroddiadau'n caniatáu i aelodau ystyried elfennau penodol:
- Meysydd cyflenwi sydd angen cefnogaeth bellach,
- Recriwtio a chadw staff,
- Datblygu staff,
- Amodau gwaith staff.

1.2 Roedd yr aelodau'n gallu ystyried capasiti'r Awdurdod i gwrdd â heriau a materion cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg wrth gadw a recriwtio staff. Yn dilyn ystyriaeth, penderfynodd y gweithgor argymell rhai materion yn ffurfiol i'r Awdurdod i'w mabwysiadu. Mae'r prif faterion yr ymdrinnir â hwy yn y papur hwn yn ymwneud â newidiadau yn nhelerau ac amodau staff sydd angen ymgynghori ffurfiol arnynt gyda'r staff a'r undebau llafur. Os cymeradwyir y mater hwn ar gyfer ymgynghori, byddaf yn adrodd yn ôl i'r aelodau ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad, yna gall yr Awdurdod ystyried yn ffurfiol newidiadau i delerau ac amodau staff.

## 2. MEYSYDD CYFLENWI:

2.1 Wrth baratoi ar gyfer gweithgor mis Mehefin, cefais farn yr Aelodau a Phenaethiaid Gwasanaeth ynghylch y meysydd cyflenwi a oedd angen cefnogaeth bellach neu yr oedd angen eu datblygu. Yn dilyn gweithgor mis Mehefin, cytunodd yr aelodau ar y meysydd canlynol:
- Gwasanaeth cynllunio
- Economi - dealltwriaeth o economïau gwledig, tir ac amgylcheddol
- Rheoli grantiau
- Twristiaeth gynaliadwy

- Datgarboneiddio
- Adferiad natur a newid yn yr hinsawdd
- Gweithio gyda phobl ifanc
- Treftadaeth.

2.2. Yn y gweithgor, amlinellwyd y gallai rhai o'r swyddi hyn gael eu cefnogi gan y gyllideb waelodlin ac eraill trwy wahanol fecanweithiau grant. Gellir cadarnhau'r adnodd i gefnogi swyddi o'r fath o'r gyllideb sylfaenol pan gaiff y gyllideb ar gyfer 2022/23 ei mabwysiadu.

**3. RECRIWTIO A CHADW STAFF:**

3.1 Cyfeiriodd Archwilio Cymru at recriwtio a chadw yn eu hadroddiad. Adroddais i'r aelodau am golledion staff diweddar a phroblemau recriwtio. Nododd mwyafrif o gyfweliadau ymadael staff ac ymgeiswyr am swyddi gwag mai lefel y cyflog oedd un o'r rhesymau dros dderbyn swyddi eraill neu wrthod y cynnig o gyflogaeth.

3.2 Comisiynodd yr aelodau adolygiad o golofn gyflog yr Awdurdod (Llyfr Gwyrdd), a gynhaliwyd gan Wasanaethau Personél Gwynedd. Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad nad oedd strwythur cyflog yr Awdurdod yn gystadleuol o'i gymharu â gweithwyr eraill y sector cyhoeddus yng Ngogledd Orllewin Cymru.

3.3. Y cyngor a gafwyd oedd i addasu bandiau cyflog yr Awdurdod o ddau bwynt cyflog. Ers cyflwyno'r cyflog byw y mae'r Awdurdod wedi'i fabwysiadu, cafwyd cywasgu o ran gwahaniaethau cyflog, felly mae angen i'r addasiad hwn fod yn seiliedig ar y band gwreiddiol fel y'i mabwysiadwyd pan weithredwyd statws sengl i osgoi cywasgu pellach.

**4. CONTRACTAU TYMOR PENODOL:**

4.1 Cytunodd yr aelodau fod manteision recriwtio i'r Awdurdod a darpar weithwyr o gynnig contractau cyflogaeth amser llawn, hyd yn oed pan nad yw'r cyllid sydd ar gael ar y pryd ond am dymor canolig. Yn y gweithgor ym mis Rhagfyr, gofynnais i'r aelodau roi'r disgresiwn i'r Tîm Rheoli gynnig swyddi parhaol hyd yn oed os nad oedd cyllid llawn ar gael adeg recriwtio, ac y dylid ystyried bob achos yn unigol.

**5. DWYIEITHRWYDD:**

5.1 Roedd yr aelodau wedi argymell y dylid cydnabod sgil o'r fath yn yr adolygiad o strwythur cyflog yr Awdurdod. Adroddir ar yr union fecanwaith ar lafar yn yr Awdurdod ar ôl i aelodau'r gweithgor ei ystyried ar 1 Rhagfyr 2021. Ni ellir ymgorffori'r casgliad yn y papur hwn oherwydd cyfyngiadau amser. Darperir argymhelliad ar y cyfryw fater yn yr Awdurdod.

**6. DATBLYGIAD STAFF:**

6.1 Gwnaeth Archwilio Cymru hefyd argymhelliad i gefnogi staff ar draws yr Awdurdod. Argymhelliad Archwilio Cymru oedd "Er mwyn cefnogi mwy o wytnwch, dylai'r Awdurdod ystyried sut a phryd i amlygu swyddogion i brofiadau newydd mewn gwasanaethau a thimau ehangach er mwyn adeiladu sgiliau, gwybodaeth a gallu". Mae ein Harchwilwyr mewnol yn cynnal archwiliad ar gynnydd yr Awdurdod yn hyn o beth, a fydd yn cael ei adrodd i'r aelodau maes o law.

## 7. TELERAU AC AMODAU EHANGACH:

7.1 Ystyriwyd telerau ac amodau ehangach fel Gweithio Hyblyg, TOIL, gweithio gartref, ac ati. Roeddent yn cael eu hystyried yn gystadleuol ac yn briodol i'r sefydliad. Gofynnodd penderfyniad yr Awdurdod o fis Chwefror 2021 am ystyried gwyliau diwrnod dewisol ychwanegol i staff i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant. Mae'r Tîm Rheoli o'r farn na fyddai hyn yn broblem o ran darparu ei wasanaethau. Ystyriodd yr aelodau hyn yn ei weithgor ar 1af Rhagfyr 2021.

## 8. GOBLYGIADAU ADNODDAU:

8.1 Mae lwfans ar gyfer costau addasiadau yng ngholofn gyflog yr Awdurdod wedi'i gostio (tua £213,000) ac wedi'i gynnwys yn y llinell sylfaen dros dro ar gyfer 2022/23 ymlaen.

## 9. ARGYMHELLION:

**9.1 Nodi'r meysydd cyflenwi ar gyfer cefnogaeth a/neu ddatblygiad pellach, a nodi adnoddau at y diben hwn o fewn y gyllideb ar gyfer 2022/23.**

**9.2 Cefnogi'r opsiwn o swyddi amser llawn lle bynnag y bo modd wrth gyflenwi prosiectau ac i'r tîm rheoli ei ystyried fesul achos unigol.**

**9.3 Awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymgynghori'n ffurfiol ar yr adolygiad o'r bandiau/colofn gyflog ac adrodd yn ôl i'r aelodau.**

**9.4 Os yw'r bandiau cyflog yn cael eu haddasu a bod aelodau'n cefnogi'r gydnabyddiaeth o fod yn ddwyieithog o fewn y band cyflog, cadw'r pwynt tâl olaf yn ôl mewn unrhyw fand cyflog i fodloni safon y cytunwyd arni yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer swyddi newydd a recriwtiaid newydd.**

**9.5 Cefnogi gwyliau diwrnod disgresiwn ychwanegol i staff ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi Sant o 2022 ymlaen.**

**EITEM RHIF 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD:** | 8fed Rhagfyr, 2021 |
| **TEITL:** | **CYD BWYLLGORAU CORFFORAETHOL (CJCs)** |
| **AUTHOR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Trafod yr adroddiad ac enwebu cynrychiolydd a dirprwy gynrychiolydd o'r Awdurdod i eistedd ar fwrdd y Cyd Bwyllgor Corfforaethol. |

**1. CEFNDIR .**

1.1. Mae Llywodraeth Cymru trwy deddf yn sefydlu Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol (CJC) ar draws pedwar rhanbarth yng Nghymru. Bydd y CJCs yn ymgymryd â dyletswyddau yn ymwneud â'r canlynol:

- Y Cynllun Datblygu Strategol (dyletswyddau cynllunio): paratoi, monitro, adolygu a diweddaru.
- Polisïau ar gyfer trafnidiaeth: datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a
- Dyletswyddau llesiant economaidd.

1.2 Fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd yr Awdurdod yn rhan ffurfiol o agweddau Cynllunio y CJC.

1.3 Mae cryn bryder wedi bodoli ynghylch sefydlu CJCs, yn bennaf oherwydd y cysyniad o gyflwyno haen ychwanegol o lywodraethu yng Nghymru gan y gall hyn wanhau'r broses o lunio penderfyniadau yn ddemocrataidd, atebolrwydd lleol ac hefyd y costau y gallai ei olygu.

1.4 Cafodd pob un o'r pedwar CJC ei sefydlu fel corff corfforaethol gyda'r hawl i gyflogi staff a dal asedau.


**2. RHANBARTH GOGLEDD CYMRU:**

2.1 Lluniwyd rheoliadau gan Lywodraeth Cymru ar 17eg Mawrth 2021 ac ar 1af Ebrill 2021 cafodd y CJCs eu sefydlu. Bydd dyletswyddau Corff Corfforaethol Gogledd Cymru yn dod yn weithredol ar 30ain Mehefin 2022 ac mae chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru eisoes wedi sefydlu corff corfforaethol annibynnol.

2.2 Eisoes mae gan chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru gynlluniau mewn lle ar gyfer rhai o'r dyletswyddau. Maent yn awr yn ceisio canfod sut y gellir cynnal – ac nid

dyblygu – partneriaethau sydd eisoes wedi eu sefydlu e.e. trwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (EAB). Mae'r chwech Awdurdod yn trafod materion technegol penodol yn ymwneud â gofynion gweithredol yn ymwneud â'r corff corfforaethol.

Isod ceir amlinelliad o'r strwythur arfaethedig:




** Dirprwyo i is-bwyllgorau statudol, sydd hefyd yn ddarostyngedig i'r gofynion tryloywder sy'n berthnasol i gyrff swyddogaeth weithredol.

2.3 Mae gan pob CJC ddyletswydd statudol ac yn ei gyfarfod cyntaf, mae angen:

1. Paratoi cynllun busnes 12-mis yn gosod allan y gweithgareddau i'w cyflawni a'r gofynion cyllidol
2. Mewn cyfarfod o'r CJC, cytuno ar ofynion cyllidol y CJC (a'r dyraniad lefi) ar gyfer ei flwyddyn ariannol gyntaf, erbyn 31 Ionawr 2022.
3. Yn ei gyfarfod cyntaf, penodi cadeirydd ac is-gadeirydd a
4. Sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2.4 O ran CJC Gogledd Cymru, bydd angen cynnal y cyfarfod ffurfiol cyntaf cyn diwedd Ionawr 2022 er mwyn cytuno ar gyllideb a phenderfynu ar lefi ar gyfer yr holl Awdurdodau Lleol. Materion eraill fydd angen sylw yw aelodaeth y CJC, trefniadau llywodraethu a chraffu, penodi swyddogion statudol a hawliau pleidleisio.

2.5 Mae'r drefn ar gyfer ariannu'r CJC wedi ei gosod allan yn y Rheoliadau Sefydlu ac mae'r ofynnol i'r penderfyniad fod yn unfrydol. Nid yw rheoliadau Llywodraeth Cymru yn cyflwyno unrhyw fformiwla ar gyfer ariannu'r CJCs.  Bydd yn ofynnol i bob CJC yn unigol benderfynu sut y bydd y Cynghorau perthnasol – ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn achos materion cynllunio strategol - yn cwrdd â'r gofynion cyllidol. Os na fydd cytundeb unfrydol ar y symiau i'w talu gan y Cynghorau perthnasol a'r Parc Cenedlaethol, mae'r rheoliadau yn gosod cyfarwyddyd ar hyn yn nwylo Gweinidogion Cymru.

2.6 Bydd yr Awdurdod hwn yn aelod o fwrdd y CJC ond cyfyngir hawliau pleidleisio i faterion yn ymwneud â chynllunio a'r lefi. Mae'r tri maes cyfrifoldeb o arwyddocâd amlwg o ran sicrhau canlyniadau cynaladwy o fewn ffiniau Eryri. Mae penderfyniad ar lefel bwrdd yn debygol o fod yn arwyddocaol i'r ardal gyfan ond hefyd yn arwyddocaol

yn nhermau llywodraethu, cyllid a gweithgareddau'r Awdurdod. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau – ac mae hyn wedi ei gynnwys yn y canllawiau – y bydd angen holl aelodau'r CJC gymryd i ystyriaeth bwrpasau'r Parc Cenedlaethol (adran 62(2) dyletswydd) wrth gyflawni eu dyletswyddau.

2.7 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod hwn ystyried yn ffurfiol pwy ddylai gynrychioli'r Awdurdod ar fwrdd y CJC. Caiff yr Awdurdod hefyd ei gynrychioli'n ffurfiol ar yr is-bwyllgor ar gyfer dyletswyddau cynllunio'r CJC ac mae cynrychiolaeth (gyda hawliau pleidleisio) wedi ei gyfyngu - ac mae hyn wedi ei nodi yn y rheoliadau - i unai Cadeirydd neu Is-gadeirydd yr Awdurdod neu Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio; gellir penderfynu ar hyn maes o law.

**3. ARGYMHELLIAD:**

**3.1 Enwebu cynrychiolydd a dirprwy gynrychiolydd o'r Awdurdod i eistedd ar y bwrdd CJC.**

JO/SNPA/08 12 21/CJCs

**EITEM RHIF 14**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD:** | 08 Rhagfyr, 2021 |
| **TEITL:** | **PARTNERIAETH Y PARC CENEDLAETHOL** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Aelodau i gadarnhau bod yr Awdurdod yn parhau fel aelod o Bartneriaeth y Parc Cenedlaethol a'r Uned Gyfathrebiadau, sydd i'w ariannu o'r ymrwymiad sylfaenol presennol ac unrhyw falans o'r cronfeydd wrth gefn. |

## 1. CEFNDIR:

1.1. Mae pymtheg Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru, Lloegr a'r Alban wedi gweithio gyda'i gilydd erioed. Yn ystod y 5 i 6 blynedd diwethaf mae natur gydweithredol gweithio wedi newid. Mae 'National Parks UK' bellach wedi'i ddiddymu'n ffurfiol ac mae trefniadau amgen wedi'u sefydlu sy'n cynnwys:

1. Fforwm Cadeiryddion,
2. Partneriaeth y Parc Cenedlaethol.
3. Sefydliad y Parc Cenedlaethol a
4. Swyddogaeth Cyfathrebu'r Parc Cenedlaethol.

1.2 Y prif reswm dros ailstrwythuro oedd anallu strwythur NPUK i sicrhau canlyniadau mewn modd amserol ac nid oedd gan NPUK y sgiliau cywir i gynorthwyo 15 Awdurdod y Parciau Cenedlaethol.

1.3 Mae angen adolygu a chytuno ar fodel cyllido cyfredol Partneriaeth y Parc Cenedlaethol am dair blynedd arall, mae'r papur hwn yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod hwn i barhau fel aelod.

## 2. STRWYTHUR PRESENNOL:

2.1 **Fforwm Cadeiryddion:**
Mae hwn yn fforwm lle gall y Cadeiryddion, yn gyfnodol fynd i'r afael â materion mwy strategol o'u cymharu â'u rôl flaenorol yn NPUK (gweithredol yn bennaf) a hefyd rhoi cyngor i'r Prif Weithredwyr ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin i deulu'r Parciau Cenedlaethol, sy'n gofyn am gydweithrediad pellach arnynt.

2.2. **Sefydliad y Parc Cenedlaethol:**

Yn 2019 gwahoddwyd y pymtheg Awdurdod Parc Cenedlaethol i fod yn aelodau o Sefydliad Parc Cenedlaethol i ehangu gallu teulu'r Parciau Cenedlaethol i elwa o roddion (corfforaethol a phreifat).

Mae'r sylfaen wedi'i chofrestru fel elusen ac mae ei hamcanion elusennol ar gyfer:

- Cadwraeth a gwella treftadaeth naturiol a diwylliannol;
- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol y parciau cenedlaethol;
- Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd, o rinweddau arbennig y parciau cenedlaethol, gan gynnwys hamdden;
- Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy'r cymunedau yn y parciau cenedlaethol; a
- Hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth a rhannu arfer gorau wrth ddarparu prosiectau datblygu gwledig cynaliadwy

2.3 **Uned Gyfathrebiadau'r Parciau Cenedlaethol:**

Mae pob un o'r pymtheg Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth dwy flynedd i gyflawni swyddogaeth gyfathrebu gyffredin. Mae'r uned Gyfathrebu yn cael ei lywyddu gan Awdurdod y Broads. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae'n adnodd da i'r Parciau Cenedlaethol. Roedd budd cyfathrebu ar y cyd yn amlwg wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio y llynedd.

Mae gan yr Awdurdod gyllideb sylfaenol ar gyfer y swyddogaeth hon.

Mae cydweithredu cynyddol yn digwydd ac mae Partneriaeth y Parc Cenedlaethol wedi dod i'r amlwg fel partneriaeth hanfodol.

## 3. PARTNERIAETH Y PARC CENEDLAETHOL:

3.1 Sefydlwyd Partneriaeth y Parc Cenedlaethol fel Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) yn 2016, penodwyd Cyfarwyddwr Datblygu hefyd yn 2016. Ffocws PPC oedd darparu cyfleoedd i ennyn diddordeb ac ennill cefnogaeth gan gefnogwyr corfforaethol a phreifat yn bennaf. Mae'r cynllun gweithredu cyfredol yn rhedeg hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Bydd y cynllun busnes nesaf am dair blynedd arall. Y prif resymeg dros PPC yw bod angen gwasanaethau strategol canolog ym meysydd partneriaethau masnachol a chyfathrebu ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y DU.

3.2 Mae'r cynllun busnes nesaf yn fasnachol sensitif ac nid yw ar gael i'w gylchredeg. Amlinellaf yma'r prif feysydd busnes sy'n rhan o'r cynllun busnes nesaf, dyma'r pum prif faes:

1. Cyflawni cyllid ar gyfer effaith amgylcheddol ar raddfa: Net Sero Gyda Natur / Revere,
2. Amddiffynwyr Parciau Cenedlaethol i sicrhau incwm ac effaith amgylcheddol,
3. Dyfodol Parciau Cenedlaethol i ddarparu incwm a chefnogi gwaith dysgu / allgymorth,
4. Partneriaeth dillad awyr agored, trwyddedu a phartneriaethau traws-barc strategol eraill i ddarparu incwm a chefnogaeth mewn nwyddau trwy garedigrwydd,
5. Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y bartneriaeth awyr agored i ddarparu incwm a chefnogi gwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant.

3.3 Rhan allweddol o'r cynllun busnes diwygiedig ar gyfer PPC a'r unedau cyfathrebu yw dod â'u swyddogaethau ynghyd. Mae hyn wedi ennill cefnogaeth pob un o'r 15 Parc Cenedlaethol ar lefel weithredol.

Y manteision ar gyfer hyn yw:

- Gwaith cynghori, ee ysgrifennu / cydlynu cynigion ar gyfer gweithgorau
- Archwilio cyfleoedd pellach i yrru incwm yn benodol i Sefydliad Parciau Cenedlaethol y DU (ar wahân i arianwyr corfforaethol ar raddfa fawr)
- Cynllunio, rheoli neu geisio nawdd ar gyfer cynhadledd sy'n wynebu'n allanol
- Casglu data ar effaith mentrau i gefnogi cyfleoedd marchnata / noddi yn y dyfodol
- Ymgysylltiad rhagweithiol â'r cyfryngau, - ar wahân i fel petai yn rhan o ymgyrchoedd a ariennir
- Rhedeg ymgyrchoedd cyfathrebu ad-hoc yn ychwanegol i'r hyn a gynlluniwyd, oni bai bod y rhain yn cael eu hariannu yn ychwanegol i waith craidd)
- Cynnal mwy nag un sesiwn cynllunio cydweithredol flynyddol Prif Weithredwyr
- Cynnal cyswllt aml â gweithgorau ar 'syniadau mawr'
- Cynnull gweithgor / fforwm Codi Arian / Cynhyrchu Incwm.

3.4 Bydd gan yr uned gyfathrebu hefyd eu cynllun gwaith eu hunain am dair blynedd, a fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwyr gyda mewnbwn gan y Fforwm Cadeiryddion.

3.5 Yn ystod y pum mlynedd ers gweithredu, y bartneriaeth fwyaf arwyddocaol oedd gyda Columbia gyda'r ddarpariaeth dillad ar gyfer 15 Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Trefniant trwy garedigrwydd yn bennaf oedd hwn gyda rhywfaint o ddyraniad cyfalaf.

3.5.1 Yn ystod y cyfnod hwn mae PPC wedi:

- Arddangos fod partneriaethau masnachol aml-flwyddyn ar lefel y DU yn bosibl
- Ysgogi meddwl cydweithredol a datblygu cynnig newydd mawr yn y DU (Net Sero Gyda Natur)
- Cynhyrchwyd cyfanswm o werth £2.78m
- Enillion Arian Parod yn Unig ar Fuddsoddiadau (EaB) o 2.1: 1
- Enillion ar Fuddsoddiadau Arian Parod a Thrwy Garedigrwydd o 4.3: 1

3.5.2 Y gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd:

1. Bod incwm cyfyngedig yn haws ei sicrhau na rhai heb gyfyngiadau,
2. Partneriaid fel: cadwraeth; lles; addysg; hygrededd; presenoldeb cenedlaethol; gwirfoddoli; gweithredu ar yr hinsawdd a bioamrywiaeth,
3. Gwendidau: cyflawni enillion masnachol (lleiafswm cynnwys, ymgyrchoedd, cyrhaeddiad uniongyrchol at gynulleidfaoedd); Nid yw 'Parc Cenedlaethol' yn Eiddo Deallusol unigryw i ni
4. Strategaethau ar wahân ar gyfer PPC a chyfyngiadau buddion Cyfathrebiadau APCau
5. Nid yw canolbwyntio'n llwyr ar yr ochr fasnachol yn chwarae i gryfder y Parciau Cenedlaethol.

Amgaeir adroddiad blynyddol y llynedd fel **Atodiad 1.**

3.6 Amlinellir costau rhedeg PPC dros y cyfnod i ddod yn y tabl canlynol:

| **Cyllideb Gwariant Gweithredol** | **2022/3** | **2023/4** | **2024/5** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau (Yn cynnwys dyfarniad cyflogau) | 194,300 | 198,186 | 202,150 |
| Staff prosiectau a ariennir yn llawn | 87,400 | 52,200 | |
| Trafeilio a Chynhaliaeth | 14,000 | 15,400 | 17,000 |
| Costau Partneriaeth/wrth gefn | 10,000 | 11,000 | 12,000 |
| Cyfreithiol | 6,000 | 6,600 | 7,300 |
| Gweinyddol/Cyfarpar/TG | 3,000 | 3,300 | 3,600 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | **314,700** | **286,686** | **242,050** |
| **Wedi' gyllido gan PPC drwy gronfa allanol/anghyfyngedig** | **-157,900** | **-116,700** | **-115,000** |
| **Cyllid ei angen drwy danysgrifiadau APC** | **156,800** | **169,986** | **127,050** |
| | | | |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol 3 mlynedd PPC** | **843,436** | | |

3.7 Nodir cyfradd EaB (Enillion ar Fuddsoddiadau) fel 5.2: 1 ar gyfer y cyfnod busnes nesaf, gan gynnwys yr arian pellach. Mae'r cyfnod busnes nesaf wedi nodi gwerth o £91,148 i'r Awdurdod hwn (Ystod £83K i £155K).

3.8 Bydd trefniadau llywodraethu cyfredol a strwythur PAC PPC yn parhau i ddiwallu anghenion darparu gwasanaethau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac atebolrwydd i Aelodau PAC. Mae hyn yn cynnwys:

- Mae'r aelodau'n cymeradwyo pob penodiad Bwrdd PPC
- Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd fwyafrif o gynrychiolwyr APC bob amser dros gynrychiolwyr annibynnol
- Cyfarfod blynyddol CCB PAC PPC gan gynnwys Adroddiad Blynyddol a chymeradwyo Cyfrifon
- Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Busnes / Gweithredol 3 blynedd cyn ei gymeradwyo gan Fwrdd PPC, gyda chynllun gwaith blynyddol a diweddariadau cyllideb yn cael eu rhannu i bob APC
- Diwydrwydd dyladwy wedi'i gyflawni a'i rannu ar gyfer yr holl brif bartneriaethau
- Ymgynghoriad (a llythyrau ochr / contractau lle bo angen) gydag APCau yr effeithir arnynt ar gyfer partneriaethau masnachol
- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

3.9 Mae'r cynllun cyfnod busnes nesaf yn gofyn am y gefnogaeth ganlynol gan 15 Awdurdod y Parc Cenedlaethol:

| | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
|---|---|---|---|
| Gofyniad PPC | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| Gofyniad Cyfathrebiadau | 121,000 | 123,420 | 125,888 |
| Cyfanswm y Gofyniad Cyllido | 271,000 | 273,420 | 275,888 |
| **Fesul APC y flwyddyn** | **18,067** | **18,228** | **18,393** |

## 4. GOBLYGIADAU ADNODDAU:

4.1 Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae'r ymrwymiad ariannol i bob Awdurdod ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf ychydig dros £18,000 y flwyddyn. Mae gan yr Awdurdod waelodlin sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n cefnogi gwaith yr uned Gyfathrebu. Awgrymir bod y balans gofynnol i gael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn gan fod hwn yn ymrwymiad tair blynedd.

## 5. ARGYMHELLIAD:

5.1 **Cadarnhau bod yr Awdurdod yn parhau fel aelod o Bartneriaeth y Parc Cenedlaethol a'r Uned Gyfathrebiadau, sydd i'w ariannu o'r ymrwymiad sylfaenol presennol ac unrhyw falans o'r cronfeydd wrth gefn.**

**ATODIAD 1.**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH Y PARC CENEDLAETHOL 2019/20**

Annual report
20-21.pdf

JO/SNPA 08 12 21 NPP

# Annual Report to Members

April 2020-March 2021

Confidential - internal use only

National Parks Partnerships



# Introduction from the Chair

National Parks Partnerships (NPP) operates on behalf of the UK's 15 National Parks who are Members of the LLP.

NPP's vision is to make a significant, sustainable and discernible contribution to the improved quality of the UK National Parks and the benefits they offer today and in the future. We deliver this by establishing and managing partnerships between companies and the National Parks.

This report provides an update on our progress in this area and covers the financial year April 2020 – March 2021.

When reading back over last year's report and the impact that Covid was having on us all, I didn't think that we would still be in its throes. It has been a testing time for us all but I am proud of the resilience shown by the NPP team as well as across the National Parks family and of what we have all achieved despite these very challenging circumstances. The last 12 months have seen even more people engage with National Parks whether in person or online and that is evidenced in the conversations we have been having with our Partners and prospects who see us as a way to underpin their health & well-being and sustainability agendas.

Despite the continued challenging circumstances, I'm pleased to report that we have been able to secure additional partners over the last 12 months (more details later in this report). Our targeted prospecting around Net Zero With Nature continues to bear fruit and the pro bono Partnership we have established with Palladium sees us preparing to launch an exciting new chapter for NPP and the National Parks family later this year.

We have continued to communicate frequently with CEOs, Chairs and Members adapting our operating model to take consideration of the impacts of the pandemic. With member Park Authority approval we extended our Business Plan for a 6th year offering a reduction in subscription to Parks for fy 21/22. The NPP board, with expert support and facilitation from James Stuart, Covener of Loch Lomond & The Trossachs NPA, kicked off 2021 with three workshop sessions to start considering how NPP should improve its operating model to offer the greatest benefit to National Parks as a whole. We look forward to continuing those discussions with you all over the coming months.

Another highlight from the year saw our Forest Holidays/Give Nature a Break Campaign (Special

# Introduction from the Chair

Award for Effective Use of a Smaller Budget and 2020 Vision Award – Celebration of Craft & Creativity) short-listed at the UK Sponsorship Awards with the latter being awarded a Highly Commended.

In January 2021, following the departure of John Kennedy, Tim Barclay and Liam McAleese at the end of 2020, NPP welcomed Sue Albion, Director of Regulatory at Flutter Entertainment plc; Justin Keeble, Managing Director of Accenture's European Sustainability Services and Briony Fox, Director of Conservation at North York Moors National Park Authority as new Board members, with a remit to help drive strategy and deepen and develop the range of income-generating partnerships between the private sector and National Parks. In March, we bid farewell to Julian Atkins, CEO of Brecon Beacons National Park and were delighted to have Emyr Williams, CEO of Snowdonia NPA join.

After 2 years in the role, in March 2021 Cat Hawkins stepped down as Chair of the Board (although remains on the Board) with me taking up the position on a temporary basis whilst we focus on our operating model and business plan. I really cannot overstate how much Cat achieved during her time as Chair and I would like to thank her personally and on behalf of the rest of the Board and National Parks for all the time and effort that she has and continues to put into NPP.

We have some really exciting leads in our pipeline at the moment, and we hope to be able to share news of these partnerships with you in the next few months along with updates on our proposed operating model.

We recognise the vital role that NPP could perform in supporting the UK National Parks over the coming years and are working hard to connect and identify new potential partners and revenue streams to this effect.

With kind regards

**Gordon Watson**
**Chair, National Parks Partnerships LLP**



# 2020-21 achievements

**On behalf of the UK's National Parks NPP have:**

- Signed a 3-year licensing deal with Harper Collins to publish walking guides and pocket maps with an initial fee of £12,000
- Launched a range of National Parks stamps with Royal Mail
- Delivered 2nd year of CLIF's support of National Parks Protectors; distributing £75,000 of grants to Parks
- Launched Net Zero With Nature proposal and secured significant pro bono support from Palladium
- Directed funds of £1,348 to UK National Parks Foundation through sales of Adventures Pins and Outdoor Scratch Maps

National Parks Partnerships

# New business

- Nododd yr Aelodau bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i brynu'r arsyllfa symudol a bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith sy'n lleihau carbon ac o fudd i fioamrywiaeth. Bydd rhaglen sy'n amlinellu lleoliad yr arsyllfa symudol ar gael drwy ddilyn Prosiect Nos ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd cyfyngiadau Covid yn cael eu codi.
- Gwaith i ddatblygu camerâu gydol y nos wedi'i ddechrau ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cytuno i ganiatáu pwyntiau arsylwi sefydlog ar eu tir a fydd yn darparu cyfleoedd gwe ddarlledu yn y dyfodol.
- Er bod CCA ar gyfer goleuadau wedi'i baratoi yn 2015, nododd yr aelodau fod y dechnoleg wedi symud ymlaen ac roedd Bryniau Clwyd wrthi'n paratoi canllawiau cymunedol a CCA hawdd ei ddefnyddio a fyddai'n cael ei fabwysiadu gan bob un o'r 4 ardal yn y dyfodol agos iawn.
- cytunodd swyddogion fod cynnwys Cynghorau Cymuned yn bwysig a bod angen adnoddau i addysgu datblygwyr a Chynghorau y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol.
- byddai Aelod yn croesawu man arsyllu ym Mwlch y Groes.
- atgoffodd Aelod swyddogion fod ysgolion ar fin dechrau ar Gwricwlwm Donaldson Cymru a fyddai'n cyd-fynd yn dda â'r gwaith hwn.

. **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chroesawu'r cyflwyniad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.00**

**ADRODDIAD GWEITHGOR YR AELODAU A GYNHALIWYD AR 20 HYDREF 2021**

***PRESENNOL:***

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes (Cadeirydd), Judith Humphreys, Edgar Owen, John Pughe Roberts, Mike Stevens;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Ms Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr Tim Jones, Mr Owain Wyn;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, Emyr Roberts, Angela Jones, Catrin Glyn, Anwen Gaffey;

**Yn mynychu**
Eurig Williams, Cyngor Gwynedd;

**Ymddiheuriadau**
Cynghorwyr Elfed Roberts, Gethin Glyn Williams.

1. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes:-
   - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
   - roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.

2. **Datgan diddordeb**
   Cyhoeddodd Mr Emyr Roberts ddiddordeb yn Eitem 6 ar yr Agenda a gadawodd y cyfarfod wrth i'r mater gael ei drafod. Cyhoeddodd Mrs. Anwen Gaffey a Ms Catrin Williams ddiddordeb yn Eitem 6 ar yr Agenda ond fe wnaethant aros yn y cyfarfod.

3. **Cofnodion**
   Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 8 Medi 2021 a llofnododd y Cadeirydd nhw fel gwir gofnod.

4. **Adolygiad Cronfeydd Wrth Gefn**
   Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid i ymgynghori ag Aelodau ar ddigonolrwydd amrywiol cronfeydd wrth gefn penodol yr Awdurdod, i hysbysu Aelodau o gynnydd y prosiect hyd yma a rhoi cyfle i'r Aelodau drafod a chraffu.

   Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a'r cefndir, gan gynnwys manylion yr egwyddorion cyffredinol a'r polisi cyfredol ar gyfer cronfeydd wrth gefn.

   Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-
   - argymhellodd y Prif Swyddog Cyllid, wrth aros am y setliad grant sylfaenol ar gyfer 2022/23, na ddylai'r Aelodau ymrwymo symiau o'r cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd.

- adroddodd y Prif Swyddog Cyllid fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau na fyddai unrhyw gronfa caledi Llywodraeth Cymru ar gael o Ebrill 2022, oni bai bod amgylchiadau'n newid, a bydd effaith barhaus pandemig Covid yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod wrth symud ymlaen.
- cynghorodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru, yn dilyn trafodaethau gyda'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, yn ymwybodol o anawsterau setliadau blynyddol wrth reoli'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. Hyd yma, ni chafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y bydd Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu hariannu bob tair blynedd o hyn ymlaen ac roedd swyddogion i fod i gwrdd eto'r wythnos nesaf i drafod y mater, cyn cyfarfod rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog ym mis Tachwedd. Cytunodd y Prif Weithredwr, pan fydd yr Awdurdod yn derbyn sicrwydd ar y setliad grant, y bydd yr Aelodau mewn gwell sefyllfa i wneud newidiadau bryd hynny.
- yn dilyn trafodaethau ar lefel Cronfeydd Rheoli Asedau'r Awdurdod a sut mae hyn yn berthnasol i'r gyllideb flynyddol, nododd yr Aelodau fod y Pennaeth Eiddo wedi codi'r angen am drafodaethau pellach ar lefel y cronfeydd pan fydd y Grŵp Asedau yn cwrdd nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am adroddiad pellach ym mis Ionawr/ Chwefror 2022 pan fydd setliad grant 2022/23 wedi'i gadarnhau.**

5. **Diweddariad ar Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Partneriaethau a Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa i ddiweddaru'r Aelodau ar y cynnydd hyd yma.

Adroddwyd – Cyflwynodd Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa yr adroddiad a'r cefndir a chynghori ar Weithdy diweddar, a gynhaliwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bartneriaeth yr Wyddfa ar y cynnydd, ac i sicrhau eu bod yn cytuno â chyfeiriad y strategaeth wrth symud ymlaen. Yna cafodd yr aelodau gyflwyniad PowerPoint yn diweddaru cynnydd ar Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen.

Croesawodd yr aelodau yr adroddiad a'r cyflwyniad a gwnaethant y sylwadau canlynol:-
- trafododd yr aelodau y lleiafrif a oedd yn gwrthwynebu egwyddorion y dull twristiaeth gynaliadwy a'r angen i ddeall beth yn union yr oeddent yn ei wrthwynebu. Cytunodd swyddogion i drafod y mater ymhellach pan fyddant yn mynd yn ôl i ymgynghori â'r cymunedau.
- o ran Llywodraethu, awgrymodd Aelod, er mwyn sefydlu corff annibynnol i reoli'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth yn ardal y Parc Cenedlaethol, y gallai fod angen cymorth allanol i helpu i frocera hyn.
- gofynnodd Aelod am ddull gofalus o ymdrin â senarios parcio ym Metws y Coed a Beddgelert, tra byddai cynigion ym Methesda yn cael eu croesawu gan y trigolion lleol. O ran Llanberis, dywedodd yr Aelod fod Glyn Rhonwy wedi'i gadw at ddibenion cyflogaeth ac nad oedd yn opsiwn i gynyddu'r ddarpariaeth barcio.
- cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod cyfarfodydd i adolygu'r tymor ymwelwyr yn cynnwys swyddogion a phartneriaid allanol. Gofynnodd aelod i swyddogion ystyried diwygio'r strwythur prisio gan y gallai llawer o ymwelwyr sy'n prynu tocynnau diwrnod adael erbyn dechrau'r prynhawn ac y gallai newid y strwythur prisio fod yn ffordd i gynyddu refeniw. Hefyd, gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at lonydd beicio a cherdded oddi ar y ffordd, roedd angen cynnwys gwell gwybodaeth i feicwyr sy'n defnyddio ffyrdd.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod swyddogion yn gweithio ochr yn ochr â Mott Macdonald a Thrafnidiaeth i Gymru i ddatblygu cynlluniau

gyda Chynghorau Bwrdeistref Sirol Gwynedd a Chonwy sy'n cyfateb i'r agenda Teithio Llesol.
- cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod y cyllid y cyfeirir ato ym mhara. 2.3, er ei fod yn ymrwymo i gyflawni'r strategaeth hon, yn cael ei reoli gan Drafnidiaeth i Gymru.
- cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod gwaith ar y gweill i wella'r rhwydwaith Sherpa, yn enwedig y problemau capasiti, erbyn dechrau'r tymor nesaf.
- diolchodd Cadeirydd yr Awdurdod i'r Rheolwr Partneriaethau a Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa am eu gwaith gyda'r cymunedau sydd i gyd â dyheadau gwahanol. Nododd y dylai swyddogion nawr symud ymlaen i ddarparu opsiynau pendant, gan ei gwneud yn glir nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud, a bod yr Awdurdod eisiau'r ateb gorau i'w gymunedau a'i fod yn agored i unrhyw syniadau newydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chroesawu'r cyflwyniad ar y cynnydd hyd yma i weithredu'r strategaeth.**

6. **Lefelau Cyflog APCE**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i ystyried, trafod a darparu arweiniad ar y ffordd ymlaen.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Cyflwynodd Mr Eurig Williams o Adran Bersonél Cyngor Gwynedd a gomisiynwyd i ddarparu arweiniad i'r Awdurdod, fel yr amlinellwyd ym mhara. 1.5 o'r adroddiad.

Cyflwynodd Mr. Eurig Williams ei adroddiad a'i ganfyddiadau ac amlinellodd opsiynau i'r Aelodau eu hystyried. (Atodiad 1)

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am arweiniad clir ar y pwyntiau a amlinellwyd ym mhara. 7 o'r adroddiad a phwysleisiodd y dylid trin yr holl staff yn gyfartal. Dywedodd fod angen gwaith pellach cyn y gellid cyflwyno adroddiad manwl, a phe bai'r Aelodau'n cytuno i addasu dau bwynt cyflog ar draws colofn gyflog yr Awdurdod, bod y gost o oddeutu £156,000 y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1.4 yr adroddiad eisoes wedi'i neilltuo yn y gyllideb at y diben hwn.

Trafododd yr aelodau a'r swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau canlynol:-
- Roedd yr aelodau'n cefnogi'r egwyddor o addasu'r ddau bwynt cyflog ar draws colofn gyflog yr Awdurdod.
- rhoddodd y Prif Weithredwr fanylion pellach ar opsiynau ar gyfer diwygio'r strwythur tâl i gydnabod lefel cymhwysedd ieithyddol.
- trafododd yr aelodau ymhellach fanteision/anfanteision darparu contractau parhaol, ac a ddylai'r egwyddor hon fod yn berthnasol i bob swydd. Ystyriodd yr aelodau fuddion cyhoeddi contractau parhaol i staff a oedd ar gontractau dros dro ac nad oeddent yn gallu sicrhau morgeisi. Hefyd, roedd gan yr Awdurdod lawer o wahanol brosiectau. Dylai staff sydd â sgiliau prosiect amgylcheddol, os yn bosibl, gael eu cadw a'u trosglwyddo o brosiect sydd ar fin gorffen i brosiect newydd. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau, pan nad oedd y cyllid ar gael mwyach, y byddai angen gweithredu polisi diswyddo'r Awdurdod yn y pen draw.
- roedd Aelod yn teimlo nad cyflog bob amser oedd y rheswm pam fod staff yn penderfynu gadael yr Awdurdod, gan fod boddhad swydd, gweithio fel rhan o dîm ac ati, i gyd yn ffactorau. Dywedodd y Prif Weithredwr fod bron pob aelod o staff, mewn cyfweliadau ymadael, wedi crybwyll lefel y cyflog, yr awydd am fwy o dâl a llai o oriau er mwyn sicrhau

gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod yr arolwg boddhad staff blynyddol wedi bod yn foddhaol iawn yn y gorffennol, y bydd yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda'r undebau llafur ar y mater hwn.

- cefnogodd Aelod y cymhelliant i ddysgu Cymraeg trwy ddal pwynt cyflog yn ôl, ond roedd yn teimlo bod angen egluro'r gwahanol lefelau sgiliau, e.e. deall, siarad, ysgrifennu, cyflwyno ac ati. Hefyd, roedd yr Aelod yn teimlo y dylai'r Awdurdod gael a strategaeth fwy cynhwysfawr yn ei lle i gadw a datblygu ei weithlu ei hun a dylai ailedrych ar gyfleoedd noddi. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod yn darparu prentisiaethau trwy golegau lleol a'i fod yn edrych i wneud mwy o'r gwaith hwn.
- roedd Aelod yn teimlo y byddai'r Awdurdod yn cael ei feirniadu waeth sut y mae'n symud yn ei flaen, er ei fod yn cytuno y dylid cydnabod yn briodol y Gymraeg fel cymhwyster i weithio i'r Awdurdod. Teimlai'r Aelod hefyd fod prinder staff yng Nghymru yn mynd yn waeth oherwydd bod ei phobl ifanc yn cael cymhorthdal i fynd i Brifysgolion yn Lloegr ac, ar ôl graddio, yn aros yno i ddod o hyd i gyflogaeth.
- cytunodd yr aelodau y dylai swyddogion wneud mwy o waith ar gydnabod dwyieithrwydd yn y gweithle. Teimlai aelod y dylid ystyried y ffordd y mae staff yn cael eu talu yn ofalus iawn, gan fod swyddi lle byddai'n anodd cyfiawnhau'r polisi hwn am resymau gwahaniaethol. Cyfeiriodd Aelod at waith Joshua Fishman, arbenigwr ar ieithoedd lleiafrifol, fel ystyriaeth i gynorthwyo gyda hyn.
- cytunodd yr aelodau i aros i weld sut mae'r addasiad yn y colofn gyflog yn effeithio ar allu'r Awdurdod i recriwtio i'r swyddi graddedig proffesiynol. Yna gellid ailedrych ar y mater ar ôl cyfnod o amser.
- roedd barn yr aelodau ar delerau ac amodau ehangach y staff yn canolbwyntio ar y farchnad newidiol a gweithio gartref, yn enwedig ar gyfer staff newydd a allai deimlo'n ynysig yn gweithio o'u cartref, a'r farchnad sy'n newid.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i Mr Eurig Williams am ddod i'r cyfarfod i gyflwyno ei ganfyddiadau.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **cefnogi addasu dau bwynt cyflog ar draws colofn gyflog yr Awdurdod.**
3. **y dylai'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli fonitro recriwtio i swyddi graddedig proffesiynol yn dilyn yr addasiad i'r colofn gyflog. Os yw gallu'r Awdurdod i recriwtio i'r swyddi hyn yn parhau i gael ei effeithio, mae adroddiad pellach i'w gyflwyno bryd hynny.**
4. **y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i ystyried ymhellach yr opsiwn o gynnig contractau parhaol mewn sefyllfaoedd lle mae cyllid ar gael am gyfnod penodol.**
5. **y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i wneud gwaith pellach ar y cymhellion i weithwyr fod yn gwbl ddwyieithog gydag ystyriaethau ar anghenion iaith a chreu gweithle cwbl ddwyieithog.**
6. **y dylai aelodau anfon unrhyw farn bellach ar delerau ac amodau staff at y Prif Weithredwr i'w hystyried.**
7. **os oes angen, i gynnull cyfarfod pellach o Weithgor yr Aelodau ym mis Rhagfyr, i drafod contractau parhaol ymhellach, gan gydnabod dwyieithrwydd a chreu gweithlu dwyieithog.**

7. **Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu - Diweddariad**
Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd – Ymddiheurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi achosi dryswch yn flaenorol ynghylch dyddiad y cyfarfod. Cadarnhaodd fod y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu yn cael ei gynnull ar 17eg Tachwedd 2021 ac y byddai Cylch Gorchwyl y Grŵp yn cael ei gytuno yn y cyfarfod. Cadarnhaodd hefyd y bydd gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei wneud dros y 6 mis nesaf, cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2022.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad llafar, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.00**



EITEM RHIF 18


Parciau National
Cenedlaethol Parks

**CYFARFOD GWEITHREDIAETH PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU**
**DYDD GWENER 19 MAWRTH 2021**
**CYFARFOD RHITHIOL, 2.00pm – 3.40pm**

**YN BRESENNOL:**

| | | |
|---|---|---|
| (PH) | Cyng. Paul Harries | Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) ac APC Arfordir Penfro (APCAP) |
| (DC) | Cyng. Di Clements | Dirprwy Gadeirydd APCAP |
| (TJ) | Tegryn Jones | Ysgrifenyddiaeth PCC, Prif Weithredwr APCAP |
| (WEJ) | Cyng. Wyn Ellis-Jones | Cadeirydd APC Eryri (APCE) |
| (AH) | Cyng. Annwen Hughes | Dirprwy Gadeirydd APCE |
| (EW) | Emyr Williams, | Prif Weithredwr APCE |
| (JA) | Julian Atkins | Prif Weithredwr APCBB |
| (SE) | Stephanie Evans | Cyfarwyddwr Pontio, APCBB |

**Hefyd yn bresennol:**

Caroline Llewellyn — APCAP

**1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU:**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod. Dywedodd ei fod ers y cyfarfod diwethaf, ynghyd â Chadeirydd APC Eryri a Chadeirydd APC Bannau Brycheiniog, wedi cyfarfod â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James. Hefyd roedd wedi mynychu cyfarfodydd Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran PCC, oedd wedi ystyried dogfen ddrafft ar weledigaeth a maniffesto cefn gwlad. Hefyd roedd y Fforwm wedi trafod materion gan gynnwys tai yng nghefn gwlad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (LlC), y Bil Amaethyddiaeth, cyllid newydd yn lle cyllid yr UE, cytundebau masnach Brexit, y problemau yn y porthladdoedd megis Abergwaun, a'r ddeddfwriaeth newydd ynghylch ffosffadau. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi dod yn ymwybodol o Wal Adduned a grëwyd gan LlC fel rhan o Wythnos Hinsawdd Cymru 2020, ac roedd wedi gofyn i TJ drefnu i adduned gael ei wneud ar ran PCC.




**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cyng. Gareth Ratcliffe, Cadeirydd APCBB a Liz Davis, Dirprwy Gadeirydd APCBB.

**2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF, 20.11.20.:**
Nodwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

<u>Materion yn Codi</u>

**a) Ffair Aeaf Sioe Frenhinol Cymru (Cofnod 3)**
Nodwyd bod PCC wedi cefnogi'r ffair aeaf, a gofynnodd TJ a ddylid rhoi cefnogaeth debyg i Sioe Frenhinol rithiol Cymru yr haf hwn.

**CYTUNWYD** i roi cefnogaeth ariannol debyg i Sioe Frenhinol rithiol Cymru i'w chynnal fis Gorffennaf 2021.

**3. CYLLIDEB PCC 2020/21:**
Cyflwynwyd sefyllfa'r gyllideb fel yr oedd fis Mawrth 2021. Nodwyd bod gwariant wedi bod yn isel, ac o ganlyniad ni hawliwyd unrhyw arian oddi wrth unrhyw un o'r tri APC.

**4. CYLLIDEB DDRAFFT 2021/22**
Cynigiwyd cyllideb debyg i'r un ar gyfer 2020/21, ond rhagwelwyd y byddai mwy o wariant yn y flwyddyn sydd i ddod. Roedd y prif eitem o wariant yn ymwneud â Seminar Aelodau Cymru, a dywedodd JA ei bod yn dal yn ansicr a fyddai'r Seminar yn mynd rhagddi eleni; ychwanegodd SE y byddai'n gadael i Awdurdodau wybod gynted ag y medrai. Nodwyd bod £1,000 wedi'i gyllidebu mewn perthynas â Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Faterion Gwledig, a'r gobaith oedd y gallai'r grŵp hwn ail-ymgynnull unwaith y cynhelir yr etholiadau i Senedd Cymru fis Mai.

Gan gyfeirio ymhellach at y drafodaeth ar noddi Sioe Frenhinol Cymru, cwestiynwyd y swm o £4500 oedd wedi'i gyllidebu. Dywedodd TJ y dylai'r swm hwn gael ei ostwng i £500 neu i £1,000, a gofynnodd am i'r gyllideb ddrafft gael ei chymeradwyo cyn belled ag y gwneir y newid hwn. Ychwanegodd pe bai angen gwneud newidiadau pellach, y gallai'r tri Awdurdod gytuno ar y rhai hynny mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.



**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







**PENDERFYNWYD** cytuno ar y Gyllideb 2021/22 yn amodol ar ostwng y ffigur a ddyrannwyd ar gyfer y Sioe Frenhinol.

5. **Y CAMAU YMLAEN AR GYNLLUN BUSNES PCC:**
Roedd adroddiad wedi'i gyflwyno ar y camau a gymerwyd ar y Cynllun Busnes 2020 - 21, ond nodwyd nad oedd gweithgareddau dros y flwyddyn wedi bod yn unol â'r hyn a fwriadwyd oherwydd y Pandemig.

Dywedodd EW o dan Ganlyniad 2 "Datblygu cynigion i gyfrannu tuag at unrhyw adolygiad o "Gwerthfawr a Chydnerth" o 2021 ymlaen", bod PCAE wedi cynnal Gweithdy Aelodau oedd wedi clustnodi nad oedd unrhyw gyfeiriad at ddiwylliant a threftadaeth yn y ddogfen gyfredol. Serch hynny mynegwyd cefnogaeth i'r adolygiad 'llai manwl' arfaethedig gan ei bod yn bwysig bod modd cyflawni'r themâu a glustnodwyd yn y ddogfen.

Cytunodd JA bod angen canolbwyntio mwy ar yr Iaith Gymraeg a diwylliant, ac ychwanegodd ei fod o'r farn y dylid cynnwys rhywbeth ar iechyd a lles yn ogystal. Roedd aelodau APCBB hefyd wedi awgrymu y dylai'r ddogfen amlygu'r agenda ar Newid Hinsawdd; ychwanegodd EW ei bod yn bwysig bod y ddogfen yn amlygu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig i'r dyfodol gan y byddai hynny yn gymorth i ddenu cyllid.

Roedd PH o'r farn y dylai rhannau o'r Cynllun Busnes fod yn fwy penodol, megis cyfeirio at bolisïau penodol, ond dywedodd EW bod yr elfennau hynny wedi'u gadael yn annelwig yn fwriadol fel y gallai'r Awdurdodau ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

**NODWYD.**

5. **HERIAU'R ARGYFWNG COVID-19 A'R CYNLLUNIAU ADFER**
Roedd pob swyddog wedi cytuno, er gwaethaf yr heriau enfawr, bod eu Hawdurdodau wedi dysgu gwersi gwerthfawr a'u bod yn fwy parod ar gyfer y tymor eleni, gan fod disgwyl i'r tymor fod mor brysur, os nad yn brysurach, na 2020. Roedd gwell cysylltiadau â'r aelod Awdurdodau Lleol, ynghyd â gwell perthynas â Llywodraeth Cymru a Croeso



**Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







Cymru, wedi bod yn gymorth i'r gwaith paratoi.  Serch hynny, roedd pob Awdurdod yn parhau i wynebu heriau o ran y pwysau yn sgîl niferoedd yr ymwelwyr.

Dywedwyd mai'r ffocws ar hyn o bryd i'r tri Awdurdod oedd gwneud cais i'r Gronfa Galedi, ac roedd cyfarfod i'w gynnal yr wythnos ddilynol gyda Croeso Cymru i drafod y mater hwn.

**NODWYD.**

**6. CYLLIDEBAU APC:**

Dywedwyd mai syndod i'r swyddogion ac i'r Aelodau oedd y cynnydd o 10% yng nghyllideb 2021/22 ar ôl blynyddoedd lawer o gyllidebau digyfnewid, ac wrth reswm roedd croeso mawr i'r cynnydd hwn. Fodd bynnag, cytunwyd bod ansicrwydd a fyddai cynnydd yn y gyllideb yn y dyfodol oherwydd effaith COVID-19, a bod angen i'r Awdurdodau barhau i ddadlau'n gryf bod angen i adnoddau ar y lefel gyfredol, os nad yn uwch, barhau.

Tra'n cydnabod pwysigrwydd bod yn barod i wario arian ar brosiectau priodol, bu peth trafodaeth ynghylch yr heriau o dderbyn grantiau ar ddiwedd blwyddyn. Nodwyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatblygu dull mwy strategol drwy geisio cael cyllid ar gyfer prosiectau mwy dros dymor hirach, a thrwy'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy.

**NODWYD.**

**7. ADOLYGIAD LLAI MANWL O 'GWERTHFAWR A CHYDNERTH'**:

Dywedwyd bod amseriad yr adolygiad yn debygol o gael ei effeithio gan ganlyniad yr etholiad Seneddol oedd ar fin digwydd. Gan gydnabod y berthynas dda â'r tîm noddi yn Llywodraeth Cymru, roedd y swyddogion yn obeithiol y byddai'r cydweithredu da yn parhau i'r dyfodol.

**NODWYD.**



Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







**8. COP26**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26 ) i'w chynnal yn Glasgow fis Tachwedd 2021, a bod Parciau Cenedlaethol y DU yn gobeithio cael presenoldeb. Byddai'r swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw fewnbwn gan PCC yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau hwy.

Yn siarad fel cynrychiolydd PCC ar y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, dywedodd JA bod y Bartneriaeth yn gweithio gyda Palladium ar ariannu prosiectau 'sero-net â natur' a'r gobaith oedd y byddai hyn yn cael ei lansio yn yr wythnosau nesaf ac yn cael sylw pellach yn COP26. Fodd bynnag, roedd y trafodaethau hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar Loegr, ac roedd gwaith yn parhau i godi proffil Cymru, gan gynnwys annog deialog gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'n rhoi mwy o fanylion am y camau a gymerwyd cyn i'w gyfnod ddod i ben.

**NODWYD.**

**9. CYRRAEDD Y TARGEDAU CARBON 2030:**

Roedd TJ wedi tynnu sylw at y galw cynyddol am i'r Tirweddau Dynodedig ddilyn mesurau datgarboneiddio, fel sefydliadau ac ar draws y dynodiadau, gan nodi bod Carboniadur Llywodraeth Cymru ar fin cael ei gyhoeddi. Barnai y byddai hyn yn tynnu sylw at faint yr her, ac er na fyddai'r canlyniadau yn hawdd eu derbyn, roedd angen gwybod union hyd a lled y broblem fel y gellir cymryd camau priodol. Roedd cyllid ar gael gan Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy i gael cyngor arbenigol ar fesurau y gallai sefydliad ddatgarboneiddio, a'r gobaith hefyd oedd y byddai cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael ag allyriadau carbon mewn sectorau megis twristiaeth ac amaethyddiaeth.

Cytunwyd, er bod yr oedi cyn cynhyrchu'r Carboniadur yn rhwystredig, y byddai'n ddefnyddiol gwybod union faint y dasg.

**NODWYD.**



**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk





Parciau National
Cenedlaethol Parks

**10. CREU PARCIAU CARBON NIWTRAL 2050 – COMISIWN TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY**

Dywedwyd mewn perthynas â'r eitem flaenorol bod cyllid wedi bod ar gael fel rhan o gynigion cydweithredol Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer cael cyngor arbenigol i helpu Tirweddau Dynodedig Cymru ddatgarboneiddio.

**NODWYD.**

**11. ARFARNU AELODAU A BENODIR GAN LYWODRAETH CYMRU**

Dywedodd PH y gofynnwyd iddo, fel Cadeirydd APCAP, gynnal arfarniadau o Aelodau Llywodraeth Cymru (LIC) sy'n ceisio cael eu penodi am ail dymor yn y swydd.  Roedd y sgyrsiau y tro hwn wedi bod yn hawdd gan fod y ddau yn Aelodau rhagorol, ond roedd yn poeni y gallai anawsterau godi yn y dyfodol.  Ychwanegodd TJ bod Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno i'r system arfarnu hon gael ei defnyddio ar gyfer pob Aelod a benodir gan LIC bob blwyddyn, a bod hyn yn groes i'r broses o Adolygu Datblygiad Personol oedd gan yr Awdurdod ar waith ar gyfer pob Aelod.  Gofynnwyd am farn Awdurdodau eraill.

Roedd WJ yn derbyn y gallai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod arfarniad yn cael ei wneud bob blwyddyn fel un o'r amodau o benodi Aelod LIC.  Fodd bynnag, roedd hefyd yn rhannu'r pryder o wneud arfarniadau os nad oedd Aelod yn perfformio'n dda, er bod y ddau arfarniad yr oedd yntau wedi'u gwneud hyd yn hyn yn hawdd ac yn ddidrafferth.  Hefyd nid oedd ychwaith yn hyderus y byddai LIC yn gweithredu ar unrhyw bryderon a godir.  Dywedodd JA bod Aelodau Bannau Brycheiniog wedi mynegi pryderon tebyg gyda'r cwestiwn yn cael ei godi ynghylch cydraddoldeb ag Aelodau a benodir gan Lywodraeth Leol nad oedd yn ofynnol eu harfarnu.  Dywedodd eraill y gallai arfarnu Cynghorwyr fynd yn drafferthus oherwydd natur wleidyddol y penodiadau.

**NODWYD.**

**12. STAFF CYDNERTH**

Dywedodd TJ er bod yr addasu i heriau COVID-19 wedi bod yn dda ar y cyfan, roedd effaith y llwyth gwaith a'r patrwm newydd o weithio yn faterion oedd yn codi yn rheolaidd.  Cydnabyddir yn arbennig y gallai hyn fod yn broblem i'r staff hynny




Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales

Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY

Ffôn / Tel: 01646 624800

e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







oedd hefyd yn addysgu eu plant gartref. Gofynnodd a oedd unrhyw beth y gellid ei rannu neu ei ddysgu oddi wrth yr Awdurdodau eraill.

Cytunodd EW bod y sefyllfa wedi bod yn heriol, a chyfeiriodd at yr adolygiad a wnaed yn ddiweddar gan Archwilio Cymru ar gydnerthedd, gan fynegi ei barodrwydd i rannu'r adroddiad a gynhyrchwyd ar gyfer Awdurdod Eryri â'r ddau Awdurdod arall er mwyn dysgu a rhannu arferion gorau.

Cytunodd JA, a dywedodd er bod llawer o fentrau wedi'u cynnal dros y blynyddoedd i gefnogi staff, bod pob aelod o staff yn ymateb yn wahanol, ac nad oedd yr un polisi i bawb yn gweithio. Roedd angen i reolwyr roi cymorth i'r staff yn unigol. Dywedodd SE ei bod yn hapus i Awdurdod Bannau Brycheiniog rannu'r adroddiad unwaith y daw i law.

**NODWYD.**

**13. CAFFAEL - DIWALLU GOFYNION NEWYDD - CYFLEOEDD AR GYFER GWEITHIO AR Y CYD**

Dywedodd EW bod Awdurdod Eryri, yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, wedi sylweddoli'r angen am adolygu ei broses caffael ac y byddai'n ceisio cyngor cyfreithiol ar ei fframwaith caffael. Gofynnodd i'r Awdurdodau eraill a oeddent yn dymuno cael eu cynnwys mewn adolygiad o'r fath, a derbyniodd ateb cadarnhaol.

**CYTUNWYD** bod EW yn paratoi brîff ar gyfer adolygu gofynion caffael y tri Awdurdod a bod hyn yn cael ei ddosbarthu i TJ a SE ar gyfer eu sylwadau.

**14. PARTNERIAETH Y PARCIAU CENEDLAETHOL:**

Dywedodd JA bod y mater hwn wedi'i gynnwys o dan Gofnod 9. Dywedodd bod PCC yn y broses o geisio rhywun arall yn ei le fel cynrychiolydd Cymru ar y Bartneriaeth gan ei fod ar fin gadael.

**NODWYD.**

Brecon Beacons National Park
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast National Park
Snowdonia National Park
Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership

Cymraeg
Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







**15. NEWYDDION O GWMPAS PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU:**

<u>APC Arfordir Penfro:</u>

- Roedd llawer o amser ac ymdrech wedi'i neilltuo i'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad o'r pandemig.
- Roedd yr Awdurdod yn rhan o brosiect mawr i osod 25-30 o Fannau Gwefru Cerbydau Trydan ar hyd a lled Sir Benfro drwy ddefnyddio cyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy. Roedd cynigion ar gyfer prosiectau yn y dyfodol hefyd yn cael eu paratoi.
- Roedd yr Awdurdod wedi dechrau ymarferiad i adolygu ei flaenoriaethau.
- Roedd menter i gefnogi gwirfoddolwyr yr Awdurdod ar-lein yn cael ei datblygu.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod ar ddyfodol cyfarfodydd unwaith y bydd y cyfyngiadau ar gyfarfod wyneb yn wyneb wedi'u llacio'n llwyr, a bydd yr adroddiad yn ystyried yr heriau sy'n codi wrth gynnal cyfarfodydd hybrid.
- APCAP sy'n gyfrifol am gyflogi swyddogion y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol, ac roedd y ddau swyddog a benodwyd yn ymgynefino'n dda.

<u>APC Eryri:</u>

- Roedd pob maes parcio bellach ar agor, ar ôl bod ar gau ar gais yr heddlu. Byddai'n rhaid talu ymlaen llaw am barcio yn Pen-y-Pass rhwng y Pasg a'r hanner tymor fis Hydref, ac roedd Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno ar hyn.
- Roedd yn annhebygol y byddai Hafod Eryri yn gweithredu yn ystod 2021 gan nad oedd y cwmni oedd yn rhedeg y gwasanaeth rheilffordd i fyny'r Wyddfa yn credu ei bod yn bosibl cynnal y gwasanaeth eleni. Gan nad oedd y ganolfan wedi agor yn 2020, roedd yr adeilad bellach yn dechrau dirywio ac roedd yr Awdurdod yn wynebu bil atgyweirio mawr.
- Roedd Plas Tan y Bwlch wedi newid ei fodel busnes oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth ac o ganlyniad roedd yn debygol y byddai diswyddiadau. Serch hynny, nodwyd bod y model Gwely a Brecwast oedd yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau wedi bod yn eithaf proffidiol.
- Byddai'r Awdurdod yn mabwysiadu amcanion Llesiant newydd ar gyfer y cyfnod 2021-26 yn ei gyfarfod nesaf.
- Roedd 370 a mwy o lysgenhadon wedi'u recriwtio ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Darparwyr lleol oedd y llysgenhadon hyn oedd yn amrywio o



**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







fusnesau Gwely a Brecwast a chwmnïau gweithgareddau oedd yn helpu i hyrwyddo negeseuon allweddol yr Awdurdod.

- Roedd Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar foderneiddio llywodraethu.
- Roedd angen recriwtio Aelod newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru, ond oherwydd etholiad y Senedd, ni fyddai unrhyw enwebiad yn cael ei wneud tan fis Medi.

APC Bannau Brycheiniog:

- Roedd SE wedi cychwyn yn ddiweddar fel Cyfarwyddwr Pontio ac roedd bellach yn arwain yr Awdurdod. Byddai JA yn gorffen ddiwedd mis Mawrth. Roedd 71 o geisiadau wedi dod i law am y swydd Prif Weithredwr, a'r cyfweliadau yn cael eu cynnal yr wythnos ddilynol a'r Awdurdod yn penodi yn ei gyfarfod ar y 30ain o Fawrth.
- Roedd estyniad wedi'i roi ar gyfer cyflwyno ceisiadau am y swydd Pennaeth Tirweddau ac Adfer Natur. Byddai'r cyfweliadau ar gyfer yr arweinydd Cyfathrebu/Cyfryngau yn digwydd cyn hir.
- Roedd yn debygol y byddai oedi cyn gallu adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi targedau newydd llymach yn ddiweddar ar gyfer lefelau ffosffad mewn afonydd yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; roedd hyn yn cynnwys afon Gwy ac afon Wysg. Hefyd roedd hyn yn effeithio ar Reoli Datblygu.
- Roedd y gwaith o adolygu'r Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn mynd rhagddo, ac roedd ymgynghoriad ar ei amcanion wedi'i gynnal.
- Roedd yr Aelodau ar hyn o bryd yn adolygu'r hyn a ystyrid yn rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.
- Roedd gan yr Awdurdod 19 o fannau gwefru Cerbydau Trydan ac roedd yn cyflawni rhaglen o osod paneli solar a thechnolegau adnewyddadwy eraill yn ei safleoedd ymwelwyr.
- Roedd Kevin Booker, Rheolwr Fflyd yr Awdurdod, wedi'i enwi yn Eco-Archseren eleni yng Ngwobrau Fflyd Prydain y Byd 2021 am ei waith ar wefru cerbydau trydan ac ynni adnewyddadwy.

**16. UNRHYW FATER ARALL:**

Nid oedd unrhyw fater arall. Fodd bynnag, estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i JA ar gyfer y dyfodol gan ddweud bod gweithio gydag ef wedi bod yn bleser.



Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







**17. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF:**
Nodwyd bod cyfarfodydd y Weithrediaeth fel arfer yn cael eu cynnal yn y Gwanwyn a'r Hydref bob blwyddyn. Byddai'r cyfarfod nesaf yn debygol o gael ei gynnal fis Hydref/Tachwedd, heblaw bod angen cynnal cyfarfod cyn hynny, ac y byddai'n cael ei gynnal yr un adeg â'r Seminar i'r Aelodau os cynhelir y Seminar.



**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk

**EITEM RHIF 19**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 08 Rhagfyr, 2021 |
| **TEITL** | **Eithrio Adroddiad ar:**<br><br>**YMESTYN CYTUNDEB YSWIRIANT** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad uchod |

## 1. CEFNDIR

1.1 Rwyf wedi rhoi ystyriaeth i'r rhesymau dros eithrio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad y cyfeirir ato uchod, a rwy'n gwnued yr argymhellion a ganlyn i'r Awdurdod:

1.2 Eithriadau sy'n berthnasol i'r adroddiad:

1.2.1 14. Gwybodaeth sy'n ymwenud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno).

1.3 Ffactorau o blaid datgelu: Dim

1.4 Rhagfarn a fyddai'n digwydd petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu:
   i. Waeth sut y caiff yr adroddiad ei geirio, bydd materion ariannol y person, personau neu'r Awdurdod sy'n destun yr adroddiad yn cael ei ddatgelu.

1.5 Mae fy marn i ar y prawf budd cyhoeddus fel a ganlyn:
   i. Gwasanaethir y budd cyhoeddus orau pe bai'r Awudrdod yn cadw'r wybodaeth er mwyn sicrhau y diogelir y wybodaeth ariannol.

## 2. ARGYMHELLIAD

**Bod yr Awdurdod yn cytuno i eithrio'r adroddiad "Ymestyn Cytundeb Yswiriant".**